

PRIS 40c

Yn y rhifyn hwn...

- **Rhwydwaith Papur Bro** – tud. 6
- **Trip W. I. Llanrug 1935** – tud. 14
- **Mae cicio pêl yn oesol** – tud. 21

YR APÊL OLAF -YR ECO OLAF?

Chwi gofiwch i ni wneud apêl daer yn rhifyn olaf *Eco'r Wyddfa* am wirfoddolwyr i gynnig eu gwasanaeth i gynhyrchu'r papur yn fisol. Yn anffodus, a gyda chryn dristwch ni ddaeth ymateb o unman.

Rydym yn chwilio am genhedlaeth newydd o weithwyr i gynnal yr *Eco* am flynyddoedd i ddod. Mae rhai o'n gwirfoddolwyr ffyddlonaf ni wedi bod wrth y llyw ers ei gychwyn – 30 **MLYNEDD YN ÔL!** Mae eraill wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth clodwiw. maent i gyd yn haeddu clod am eu hymdrechion, maent i gyd yn haeddu seibiant yn ogystal – **OND MAE'N BWYSIG FOD YR ECO YN PARHAU.**

**Os oes ganddoch chi ddiddordeb ym
mharhad dolen gyswllt pentrefi ein bro**

ers deng mlynedd ar
hugain, a hynny drwy
gyfrwng yr iaith
Gymraeg, yna dowch
yn llw i gynnig eich
syniadau i
GYFARFOD
AGORED YN Y
SEFYDLIAD COFFA
LLANRUG
NOS FERCHER,
12 GORFFENNAF
AM 7 O'R GLOCH.

Os na chaiff y
cyfarfod hwn ei gefnogi,
ac os na ddaw
gwirfoddolwyr ymlaen i
gynorthwyo, yna byddwn
fel swyddogion yn symud
ymlaen i derfynu
bodolaeth *Eco'r Wyddfa*.

[illegible]

ECO'R WYDDFA

3HIF 334 MEHEFIN 2006 PRIS 40c

HANES BYWYD GŴR O FRO'R ECO YN DESTUN FFILM

Stori dyn gafodd ei allwddio am
ddwyn ffeasant o dir Y Fawrol.

NID hanes anhysgusol un o
ymariadau Bro'r Eco yn
destun ffilm arloesol fydd y
llyngos ar SAC dros y Nigodolig.

Mae aelodau o gen y cyhyrchu
wmni Menco y Gaernarfon
wydd dychwylid o Batagonia
a Awstralia i'w ymuno yn dilyn
i troed y'r o'r enw Ellis
Williams a fu'n byw ar Ffawr Gŵr
o'r ddiwedd y 19c. Ffawr, fflwg
y cyhyrchu a'r llanddymiol.

Gorffwyl Ellis i adacti cyhyr
n 1908 am iddo ddwyn ffeasant o
lir plas y Ffawr Gŵr Bangor.
Veth i Batagonia i weithio fel
paucho ar ym i Awstralia ble y
ddestiodd gyda'r ffeasant cyn cael
yn 1914.



HELP PLIS!

HELP FERS.

Rydym angen gwirfoddolwyr ar fyrdyr i sicrhau parhad Eco'r Wyddfa.

Mae Eco'r bapur poblogaidd, sy'n gwerthu dros 2000 copi bob mis. Mae'n talu'i ffordd, gydag ychydig arian wrth gefn ar gyfer diwrnod glawog. OND ychydig iawn o wirfoddolwyr sy'n ei gynhyrchu, ac mae'n nbw'n teimlo'r strae'n yr arw. Nid yw'n deg disgwyl iddyni barhau heb gymorth buan.

Medd Arwel Jones, cadeirydd ac un o sefydlwyr Eco'r Wyddfa, 'Dim ond ychydig oriau bob mis a olyga'r gwaith. Mae joban ar gael i bawb - hel newyddion, tynnu lluniau, paratoi layouts, plygu, dosbarthu, hel adferts, gwerthu a gweinyddu, i enwi dim ond rhai. Rydym yn chwilio am genedlaeth newydd o wirfoddolwyr- pobol gydag ychydig o oriau swab bob mis. Mae'n lot o hwyl ac yn gyfraniad gwerth chweil i fydd y fro.

Os gallwch chi helpu rhwng eich enw i unrhyw swyddog o'r papur a enwir ar dudalen 2. Siaradwch â'ch ffriidiau a dewch yn llw. Diolch yn fawr!



Tudalen flaen
rhifyn cyntaf
Eco'r Wyddfa
a rhifyn y mis
diwethaf.

Y bwrdd lle'r arferai Ellis gwynnu ei lyhyrnu.
Nolafon, Dyffryn Cludui ym
Mhatagonia. Yn rhydwedd iawn
doedd neth wedi ei gylwrtu y lle ar
anser mairh ac roedd llo' o'r hen
ateiriau yn dal ynyw gan grynwys
y bwrdd lle'r arferai Ellis
gwynnu ei lyhyrnu.

ECO'R WYDDFA

RHIF 335

GORFFENNAF 2006

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Gibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tîm Golygyddol

d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON

Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631

Bryn Jones (01286) 674405

Llinos Jones (01286) 871820

Sion Williams (01286) 871858

Alun Ellis (01286) 650761

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prjr.wales.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Fowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, 21 AWST

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, 31 AWST

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu a	Rhif Ffôn
Medi	21 Awst	31 Awst	Dinorwig	Marian Jones	870 292

Llythyrau

Cyngor Cymuned Llanberis
22 Mehefin 2006

Annwyl Olygydd,

Tybed a gaf i fanteisio ar dudalen
lythyrau'r Eco i dynnu sylw at –
faw cŵn – problem gynyddol yn
yr ardal yma, yn arbennig yn
Llanberis.

Dro ar ôl tro fe gawn
adroddiadau yn y Cyngor
Cymuned am faw cŵn yn difwyno
palmentydd a llecynnau gwyrdd y
pentref, ac yn arbennig yn
ddiweddar fod baw cŵn hyd yn
oed i'w weld yn rhai o gaeau
chwarae y plant.

Gofynnwyd i mi ar ran y
Cyngor ofyn yn garedig i'r sawl
sy'n berchen ci, neu'n cerdded ci i
rywun arall, i fod yn fwy cyfrifol
ynghlŷn â lle mae'r ci yn codi ei
goes a gwneud ei fusnes, ac i
glirio'r baw ar eu hól. Prin bod yn
rhaid dweud bod baw ci yn beth
anghynnes ar y gorau, ond mae
hefyd yn beryglus i bobl, a phlant
yn arbennig.

Cafwyd llythyr yn ddiweddar
oddi wrth un o drethdalwyr yr
ardal yn dweud fod rhywun wedi
bod yn taflu baw ci mewn bag
plastig i'w ardd. Dywedodd iddo
gasglu dros ddeg ar hugain o
fagiau plastig yn llawn baw ci, yn
ogystal â photeli a chartonau diod
a sbwriel arall, a'r cyfan wedi ei
daflu dros y wal i'w eiddo.

Rydym yn freintiedig ryfeddol
yn byw mewn lle mor braf a
hardd, does bosib na allwn ni i
gyd wneud ein rhan i gadw'n
hardal yn dwt, ac i feddwl am ein
cymdogion yn lle bod yn
hunanol.

Eithriadau ydi'r rhai sy'n
camweddu a chamymddwyn, ond
mae'r nifer fechan anghyfrifol
yma yn gwneud bywyd llawer o
bobl eraill yn ddiflas a phoenus.
Yr eiddoch yn gywir,

DEI TOMOS.

Clerc Cyngor Cymuned
Llanberis

2 Llys Mostyn
Trelawnyd

Annwyl Ddarllenwyr

(ardal Llanberis yn bennaf)

Derbyniais y llythyr hwn gan
berthynas i mi sy'n awr yn byw yn
Henllan, Dinbych. Cofiaf i'm tad
gael piano i mi mewn ocsiwn yn
Glyn Peris a chefais wersi gan
Miss Clarice Williams, Llanberis.

Lawer tro bu'r teulu i'm gweld
pan oeddwn yn byw yng
Ngharmel, Treffynnon, a
chawsom lawer i sing song ond
chlywais i erioed mo'r geiriau
yma yn cael eu canu. Bûm ar y
ffôn hefo Dafydd Whiteside
Thomas o Lanrug ac mae ef yn fy
sichrau mai at Chwael
Glynrhonwy mae'r penillion yn

cyfeirio. Oes rhywun allai
ddwud ar ba adeg y cawsant eu
cyfansoddi, os gwelwch yn dda.

Yn gywir iawn
Elizabeth Edwards

* * *

Corn y Glyn

Gwraig y Gweithiwr

Eisteddai gwraig y gweithiwr

Un noswaith wrth y tân

Gan ganu melys alaw

I lonni ei phlentyn glân.

Dywedodd wrtho'n annwyl,

Gan gydio ynddo'n dynn,

'Daw Tada adre'n union

Fe ganodd corn y Glyn.'

Yng nghanol ei llawenydd

Cusanai'i phlentyn tlws

Ond clywai law grynedig

Yn curo ar y drws.

Yn lle ei phriod hawddgar,

Daeth ati newydd syn

A gofid ddaeth i'w chalon

Yn sŵn hen gorn y Glyn.

Ymgasglodd ar yr aelwyd

Gymylau fwy na mwy,

Darfyddodd gwrid ei gruddiau

A'i chalon bron yn ddwy.

Y plentyn bach diniwed

A wenai megis cynt

Pan chwalwyd disgwyliadau

Y fam i'r pedwar gwynt.

Mae'r corn o hyd yn canu

Fel arfer yn y Glyn,

Ond ni ddaw ei hanwyl

Yn ôl i'w fwthyn gwyn.

Band Deiniolen

Yr Hen Felin

Deiniolen

Annwyl Ddarllenwyr

BAND DEINIOLEN

Cynhelir Cyngerdd Blynnyddol y

Band yn Ysgol Brynrefail,

Llanrug nos Wener, 14

Gorffennaf am 7 o'r gloch. Bydd

Dilwyn Pierce yn cyflwyno Band

Deiniolen, Y Band Ieuencid,

Casi Wyn (enillydd yr Eisteddfod

yr Urdd eleni), Alaw Tecwyn

(Rhiw, Aberdaron), Anest Bryn a

Chôr Aelwyd yr Ynys.

Bydd y tocynnau i'w cael wrth

y drws: Oedolion – £5, Plant – £2.

Mae pawb wedi mwynhau noson

dda yn y gorffennol. Dewch yn

llu.

Bydd bws am ddim yn

cychwyn o Ddinorwig am 6.00 o'r

gloch ac yn codi yn Rhydfadog,

Stryd Fawr, Hafod Olau, Pentre

Helen, Clwt-y-bont a

Phenisarwaun.

MEIRION JONES

UCAC

Pen Roc

Rhodfa'r Môr

Aberystwyth

Annwyl Ddarllenwyr

Datblygiadau Addysg 14-19 oed

Ydych chi'n bwriadu mynd i

Steddod Genedlaethol Abertawe

a'r cylch eleni? Oes gennych chi

ddiddordeb mewn byd addysg a'r

datblygiadau diweddaraf yn y byd
hwnnw? Croeso i chi ddod draw i
Babell y Cymdeithasau dydd
Mawrth, 8 Awst am 12.00 i
wrando ar (ac i holi) siaradwyr
gwadd UCAC. Mae'n sicr o fod yn
drafodaeth fywiog a diddorol
gyda siaradwyr sy'n brofiadol ym
myd Addysg yn trafod
datblygiadau cyffrous a heriol, sef

• Peter Griffiths, Pennaeth Ysgol
Uwchradd Rhydfelen

• Wendy Edwards, Rheolwr y
Ganolfan Ddysgu Gydol Oes
Ddwieithog yng Ngartholwg

• Aeron Rees, Cydlynnydd Rheoli
Newid Rhwydwaith 14-19
Ceredigion yn siarad ar y thema
'Datblygiadau Addysg 14-19'.

Dewch draw ac yna ymunwch â ni

am baned ar stondin UCAC.

Croeso cynnes iawn i chi un ac

oll.

Yn gywir

Gruff Hughes

Ysgrifennydd Cyffredinol

Apêl Cae'r Gors

Cyfle i drosglwyddo cyfoeth
ein treftadaeth i
genedlaethau'r dyfodol

Yr oedd arogl cwyr melyn lond y
egin, y dodrefn yn disgleirio a'r
teils coch a du ar y llawr yn
dywyll gan sebon a chadach.
Gorweddaid cysgodion ar ben draw
y gegin fel eryr mawr yn lledu ei
esgyll. Y tu ôl i'r cysgodion yr
oedd darluniau teidiau a neiniau,
ewythrod a modrabbdd;
marwnadau mewn fframiau i
aelodau o'r teulu... Yr oedd tân
mawr coch yn y grât a'r cochni yn
rhedeg yn araf i'r marwor a
ymestynnai'n bell i fyny'r simnai.
Ychwanegid at olau'r aelwyd o
dan y simnai fawr gan sach siwgr
gwyn a roddasid ar y matin
newydd. Yn y twll mawn wrth
ochr y popty yr oedd y gath yn
cysgu yn dorch.

Marwolaeth Stori

Kate Roberts

* * *

Ychydig o ddychymyg sydd ei
angen arnoch i ddyfalu sut le
oedd Cae'r Gors, cartref
plentyndod Kate Roberts, ar
ddechrau'r ugeinfed ganrif. Mae
disgrifiadau cartrefol a chynnil
yr awdures o fywyd tyddyn yn
ardal chwarelyddol Rhosgadfan
yn addurn cyson yn ei gwaith.
Wrth ddarllen y disgrifiadau
uchod hawdd yw dychmygu
eich hun yn pendwmpian ar y
gadair freichiau o flaen y tân i
gyfeiliant cân grwndi'r gath a
chleician fflamau o'r grât.

Ym mis Ebrill 2007 ni fydd
angen i chi ddychmygu
mwyach. Erbyn hynny bydd
gwaith adfer y tŷ ac adeiladu
Canolfan Dreftadaeth Kate
Roberts wedi'i orffen, a bydd
modd i chi brofi

(Parhad ar dudalen 4)

CHWILOTA

BLE MAE'R FFIN?



Bydd yr etholiad nesaf yn golygu fod gan nifer o etholwyr yng Ngwynedd Aelod Seneddol neu Aelod Cynulliad newydd sbon – a hynny, nid o reidrwydd oherwydd fod rhai o'r aelodau presennol yn colli eu seddau, ond am fod newid wedi bod yn ffiniau'r etholaethau. Ad-drefnu er mwyn tegwch cynrychiolaeth yw'r rheswm, ond mae creaduriaid gwleidyddol eu cymeriad yn edrych arno fel ymgais i hwyluso'r ffordd i blaid arbennig ennill ambell sedd. Bid a fo am hynny!

Yr hyn sy'n ffaith yw fod yr etholaethau newydd wedi eu ffurfio i gynnwys wardiau llai etholaethau Cyngor Gwynedd, ac etholaethau llai fyth y cynghorau cymuned. Ac o fewn y cynghorau cymuned mae wardiau llai eto – ac y mae i bob un ohonynt ffin. Ffurfiwyd y mwyafrif o'r cynghorau cymuned o'r hen gynghorau plwyf, ond yr oedd ffiniau gwahanol i gynghorau plwyf ac i'r plwyfi eglwysig; er fod rhai ohonynt yn aros yn union yr un fath! Cymhleth?

Pwy felly benderfynodd ar y ffiniau cynharaf?

Ffiniau naturiol ddatblygodd gyntaf: afonydd neu gribau mynyddoedd; ond fel y dechreuwyd amaethu'r tir, datblygwyd ffiniau i wahanu amaethdir un teulu oddi wrth y llall, a datblygodd y trefgorddau cynnar. Mewn amser unwyd rhai o'r trefgorddau i ffurfio plwyfi gweinyddol; rhai oedd fel arfer yn cyd-fynd â'r plwyfi eglwysig. Dyna ddechreuad llywodraeth leol elfennol.

Dros y canrifoedd, newidiwyd y ffiniau, gan ychwanegu tiroedd neu golli tiroedd o rai plwyfi. Doedd y Waunfawr ddim yn bod fel plwyf ar y cychwyn cyntaf – rhan o blwyf Llanbeblig oedd, ac yr oedd Llanfairisgaer yn cynnwys rhannau o dir yn ardal Pontrug a Chaeathro.

Gallai rhywun dybio y byddai afon Saint yn ffurfio ffin naturiol rhwng plwyfi Llanddeiniolen a Llanrug, ac y mae hynny'n wir am ran helaeth o'r afon, ond nid felly ymhobman. Yn ardal Pontrug mae plwyf/cymuned Llanrug yn hawlio tir ar y ddwy ochr i'r afon. Yn yr un modd, naturiol ddigon fyddai i'r ffin rhwng Llanberis a Llanddeiniolen gael ei thynnu ar hyd llynnoedd Padarn a Pheris, ond yr oedd Llanberis yn hawlio tir ar ochr yr Elidir. Felly, doedd y ffiniau naturiol ddim bob amser yn gwahanu dwy ardal neu ddau blwyf.

Ond ar ddiwedd y dydd, rydw i'n dadlau nad llinell ar fap neu nodwedd o'r tirwedd yw ffin, ond teimlad. Hynny yw, pan fyddwch chi'n dychwelyd gartref ar ôl bod i ffwrdd ar

wyliau neu ar ôl diwrnod o siopio yng Nghaer, neu gêm bêldroed yn Lerpwl neu Fanceinion; ble ar y ffordd y gallwch ddweud wrthyf chi eich hun 'rydw i adra rwan.'

I drigolion Deiniolen, ydi 'adra' yn golygu cyrraedd Garej Beran neu Ben Golwg. Ble mae Dinorwig yn cychwyn i'r trigolion – ai ar dop Gallt y Foel neu rownd y tro? A ble mae Dinorwig yn gorffen a'r Fachwen yn dechrau? Ydi Raca yn rhan o Benisarwaen? A ble mae Penisarwaen yn gorffen wrth deithio i gyfeiriad Pontrhythallt? Ble mae cae pêldroed Llanrug – yn Llanrug neu Gwm y Glo? Oes yna ffin rhwng Bethel a Saron? Ac os oes, ble mae? Ymhle ar ffordd yr ucheldir mae'r ffin rhwng Ceunant a'r Waunfawr? Oes rhaid croesi'r bont dros afon Gwyrfaei cyn bod i mewn ym Metws Garmon? A faint tu hwnt i Lanberis mae rhywun cyn cyrraedd y Nant? Dyna gryn nifer o gwestiynnau i chi bendroni drostynt.

Rai blynyddoedd yn ôl bu dosbarthiadau hanes lleol yn Ninorwig a Deiniolen yn pendroni dros yr union ffiniau. Rhoddwyd map o'r ardal i bob aelod o'r dosbarth a gofyn iddynt osod y ffin o amgylch eu pentref yn ôl eu teimlad personol, ac nid yn ôl unrhyw linellau gweinyddol. Roedd y canlyniadau yn ddiddorol, a bu cryn ddadlau ynglŷn â rhai lleoliadau! Gwnewch chwithau yr un fath ar gyfer eich pentref chi. Tybed ai teimlad personol a achosodd i drigolion ardal Pontrug ddewis eglwysi gwahanol i fedyddio a chladdu aelodau o'u teulu...?

Ble mae Pontrug?

Yn ystod diwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, tref fechan o

ran arwynebedd oedd Caernarfon, ac felly roedd gwlad agored rhyngddi a phentrefi Llanrug a Bethel. Yn wir, roedd Rhosbodrual yn dir comin, y mwyafrif ohono yn eiddo i'r dref, ond rhannau yn perthyn i blwyf Llanrug. Ffermydd sylweddol megis Cefntrersaint (Kent), Bodrual a Dolgynydd oedd yn ardal Pontrug, ond i ble roedd y trigolion yn perthyn?

Ceir fod mewnfydwyr o Loegr wedi sefydlu ym Modrual i ffermio a chadw'r felin. Byddai rhywun yn disgwyl iddynt symud tua'r dref (mwy Seisnig) i fedyddio eu plant. Ond, na. Yn eglwys Llanrug, cryn bellter i ffwrdd yn y cyfnod hwnnw, y bedyddiwyd eu plant i gyd. Felly hefyd deulu Cefntrersaint, ac y mae'n bosibl mai Eingl-Gymreig oeddent hwythau hefyd, gydag enw fel Byrne. Ond hanner canrif yn ddiweddarach, roedd teulu Cae'r Glyddyn (sef y Gerddi Seiont presennol) yn claddu aelodau'r teulu yn Llanbeblig. Mae'n bosibl, wrth gwrs, mai cysylltiadau teuluol oedd yr achos dros hynny, ond mae'n od meddwl fod tair fferm gymdogol yn dewis dwy eglwys blwyf mewn dau gyfeiriad hollol wahanol.

Adeiladwaith traddodiadol

Yn dilyn yr apêl fis diwethaf ynglŷn â porch llechen, cefais alwad gan Alison Donnelly o Ddinorwig yn adrodd fod porch llechen ar ei chartref hi yn Ninorwig, ac y credai fod un arall ar un o'r bythynnod yn ardal y Fachwen. Bydd cyfnod y gwyliau yn gyfle i fynd draw i dynnu lluniau ohonynt. Ond beth am eraill? Rhowch wybod.

Beuno Sant a Chastellmai

Rai misoedd yn ôl soniais am gysylltiadau Beuno ag ardal Castellmai. Yn ystod y mis a aeth heibio, derbyniais lythyr a map gan Rhys Prytherch o Gaernarfon a oedd wedi derbyn y rhifyn arbennig hwnnw o'r *Eco* yn hwyr – ac yr oedd ganddo ddiddordeb yn yr hanes oherwydd iddo gael ei fagu ar fferm Castellmai.

Soniais am lwybr tuag at ffynnon mewn cae a elwid yn Cae Castell. Pan brynwyd Castellmai gan dad Rhys Prytherch, ym Medi 1954, roedd y map a ddaeth gyda'r gweithredoedd yn dangos llwybr at ffynnon yng Nghae Castell. Ond meddai Rhys:

'Nid wyf yn cofio toriad yn y wal

na camfa yno, nac ychwaith lwybr na ffynnon. Ac y mae gen i atgofion melys am Gae Castell oherwydd mai yno y gadawodd fy nhad fi i ddreifio'r Ffyrgi bach i rowlio'r cae wedi i arall ei aredig. Roeddwn tua tair ar ddeg ar y pryd, ac yn cael dreifio'r tractor ar ben fy hun am y tro cyntaf.

Felly, mae'n ymddangos fod y ffynnon wedi diflannu o Gae Castell erbyn canol y pumdegau. Roedd cae o'r enw Cae Ffynnon ar dir Castellmai hefyd, ond nid oes cof am ffynnon ynddo yntau. Ond roedd ffynnon yng Nghae Rhos, ac y mae yno hyd heddiw, ond fod ffordd osgoi Caeathro wedi amharu ar draeniad y tir.

Sonnir hefyd ar fap y gweithredoedd am Gae Truan, yn agos i fferm Ty'n y Gors. Nid yw Rhys yn cofio defnyddio'r enw hwnnw o gwbl, gan mai Cae Llain Meddygon oedd eu henw nhw fel teulu arno. Mae'r cae bellach yn un cae anferth yn cyd-redeg â'r ffordd osgoi cyn cyrraedd croesffordd Rhos Bach. Mae posiblwydd mai sillafiad o ynganiad llafar oedd Cae Truan, ac mai'r enw cywir ddylai fod Cae Traean. Bydd angen mwy o chwilio i ddarganfod y gwir ystyr.

Sgwarnog arall a gododd o sylwadau Rhys oedd y gred mai cartref haf Esgob Bangor oedd Castellmai ar un cyfnod. Oes unrhyw un o'r darllenwyr â chysylltiadau eglwysig i fedru cadarnhau hynny? Credid hefyd fod yr hen Gastellmai yn nes i ddyffryn afon Beuno na'r lleoliad ar dir uwch fel ag y mae heddiw. Yn wir, dywed Rhys fod olion hen gloddiau cerrig yng Ngweirglodd y Coed – ond a oeddent yn olion waliau tŷ neu'n hen gorlannau?

Llawer o ddiolch am ymateb ynglŷn â'r enwau caeau a lleoliad (neu'n hytrach ddiffaniad) y ffynhonnau.

Pa mor hen yw Tŷ Llyffant?

Lleolir y cartref o'r enw od hwn ger Pantafon, Ceunant. Daeth ymholiad ynglŷn â pha mor hen yw'r enw. Does gen i ddim cof dod ar draws yr enw o gwbl mewn unrhyw gyfrifiad am blwyf Llanrug, nac yng nghofnodion Mapiau'r Degwm. Ond honnir fod yr enw'n bod, ac iddo gael ei enwi am fod tŷ wedi ei godi ar lwybr llyffantod i ddodwy grifft yn llyn Pantafon. Dydw i ddim digon o naturiaethwr i wybod a oes gan lyffantod lwybr arbennig i ddodwy grifft, felly, os oes arbenigwyr bywyd gwyllt yn darllen y golofn, a allan nhw gadarnhau'r ffaith fod hynny'n wir?

Tim Pêl-droed Cwm y Glo

Derbyniwyd gwybodaeth am y tîm uchod a ymddangosodd ar dudalen gefn yr *Eco* fis diwethaf. Roedd y mwyafrif o'r chwaraewyr yn byw yn

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501



Llanrug; yn wir, roeddent i gyd bron yn byw ar Ffordd yr Orsaf! Felly, pam galw'r tîm yn Gwm y Glo? Yr enwau:

Yn sefyll: (heb ddillad pêldroed) Arthur Pritchard, Myrddin Williams, John Ellis, ?, Bob Orritt, Caerwyn Griffith. Yn eistedd: ?, Nowie Jones, Griffith Emlyn Pritchard (brawd Arthur), Sadie Evans a ?. A'r hyn sy'n ddiddorol yw mai dim ond deg o chwaraewyr

sydd yn y tîm.

Egwyl dros fisoedd yr haf bellach. Cyfle i grwydro'r ardal a thynnu lluniau rhai o'r nodweddion adeiladwaith traddodiadol! Amser hefyd i chwithau chwilio am wybodaeth neu anfon ymholiadau i mewn. Cofiwch gysylltu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515.

RHODDION

£20: Er cof am Mr a Mrs Jones Evans, gan Margaret a Peris.

£10: Linda, 60 St David's Road, Abergele (Heli, Waunfawr, gynt); Sioned a Paul, Abergele (Cefn Cynrig, Bethel gynt); Mrs Nanw Lloyd Jones, Kidderminster; Linda Schudlack, Stad Minffordd, Llanrug; Eirlys Pierce, Llanrug.

£5: Mrs Kathleen Williams, 6

Glanrafon Bungalows, Llanberis; Bill Pitts, 5 Glanrafon, Llanberis; Menai Lloyd Pitts, 5 Coed y Glyn, Llanberis; Mrs Iona Jones, 40 Afon Terrace, Llanberis; Bet Jones, Lyndale, Llanrug.

£3: Rita a Collwyn, Elan, Bethel; Megan Humphreys ac Elizabeth Evans, Bethel.

£2: Daniel Orritt, 7 Blaen y Ddôl, Llanberis;

SEINDORF ARIAN DEINIOLLEN CYNGERDD 2006

Nos Wener, 14 Gorffennaf
Ysgol Brynrefail, Llanrug
am 7.00 o'r gloch

Dewch yn llu i fwynhau

Dilwyn Pierce

fydd yn cyflwyno

**Seindorf Arian Deiniolen
Seindorf Ieuencid Deiniolen**

Casi Wyn

Alaw Tecwyn

Côr Aelwyd yr Ynys

Anest Bryn

Tocynnau ar gael wrth y drws:

Oedolion: £5

Plant: £2

Noddir y cyngerdd gan

Garej Beran, Deiniolen

<http://www.deiniolenband.org.uk>

(Parhad o dudalen 2)

amgylchiadau byw y cyfnod a dysgu am arteffactau a chreiriau'r oes. Bydd y Ganolfan yn cynnig darlun byw o fywyd yn yr ardal yn ystod cyfnod plentyndod yr awdures, gan drafod byd y chwarelwr-dyddynwr a'r wraig tŷ.

Er mwyn sicrhau dchongliad cynhwysfawr o'r cyfnod, estynnwn wahoddiad i'r sawl sy'n dymuno cyfrannu llyfrau, llythyrau a dogfennau, dodrefn, celfi a chreiriau i gasgliad y Ganolfan. Bydd y rhoddion a dderbynnir yn cael eu harddangos yng Nghae'r Gors ac yn fodd o sicrhau ein bod ni'n trosglwyddo cyfoeth ein treftadaeth i genedlaethau'r dyfodol.

Gweler y rhestr isod o eitemau sydd o ddiddordeb arbennig i'r Ganolfan:

- Copïau gwreiddiol o weithiau llenyddol Kate Roberts, ei chyfoedion o'r ardal a llyfrau'r cyfnod, e.e. Almanac Caergybi, gweithiau Eben Fardd, Geiriadur Charles, Drysorfa'r Plant;
- Llythyrau, llawysgrifau a dogfennau o law Kate Roberts;
- Dodrefn cegin gan gynnwys cadeiriau pren, bwrdd, sofffa neu setl, cloc mahogani tal, cwpwrdd gwydr deuddor, cwpwrdd gwydr â thair drôr;
- Celfi coginio;

Dychweler i: Cae'r Gors, Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts, 20 Stryd y Dŵr, Pen-y-groes, Caernarfon, Gwynedd, LL54 6LR

Enw:

Cyfeiriad:

Côd Post:

Ffôn:

Ffôn Symudol:

e-bost:

Manylion y Rhodd/ion:

Disgrifiad

Oed

Cyflwr

Rhodd, benthyciad neu ar werth

Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwyh

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:


(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**



**GWYNANT
PIERCE**

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

**Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG**

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

- Fframiau, lluniau a sampleri;
- Lampiau paraffin;
- Llestri, drych ac ornaments;
- Tecstilau, matiau, cynfasau gwely a dillad;
- Ffendar, bwcced glo, a mcgin;
- Gwely bach pren;
- Potiau llaeth;
- Llestri ymenyn;
- Twb golchi, rhwbiwr dillad a doli olchi;
- Padelli pobi haearn a dysglau pridd;
- Dresel;
- Grât o lechen neu o haearn;
- Celfi chwarel;
- Celfi ffermio.

Bydd rhestr o'r rhoddion yn cael ei chreu yn ystod y misoedd nesaf cyn y byddem yn mynd ati i'w cofnodi a'u casglu ym mis Medi.

Bydd yr holl roddion yn derbyn gofal amgueddfaol ac fe gefnogir y Ganolfan yn ariannol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Cronfa Gynladwydd yr Ardoll Agregau, Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol, Cronfa Wledig Gwynedd a Tir a Môr Cyf.

Am ragor o fanylion parthed cynnig rhodd, boed yn fach neu'n fawr, i Ganolfan Dreftadaeth Kate Roberts, mae croeso i chwi gysylltu â mi neu lenwi'r bonyn isod a'i ddychwelyd yn y post.

Sian E. R. Davies

01286 882 202

caergors@hotmail.co.uk

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

YSGOL CWM Y GLO

Rydym wedi cael mis prysur eto yma yn Ysgol Cwm y Glo. Aeth tîm o nofwyr i gystadlu yn y Gala Nofio i Ysgolion Dan 100 o blant, a daeth nifer o dystysgrifau yn ôl i'r ysgol. Da iawn blant.

Daeth Jason atom o Ysgol Brynrefail i gael wythnos o brofiad gwaith gydag Anti Janet ac Anti Christine yn y gegin. Diolch iddo am ei waith da a phob lwc iddo i'r dyfodol.

Aeth y grŵp Dawnsio Gwerin Dan 12 draw i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Rhuthun. Dawnsiodd bawb yn ddel iawn ond ni chafwyd llwyfan y tro yma. Ewch i weld eu lluniau ar wefan yr ysgol.

Cafodd Adran y Babanod fynd i Theatr Gwynedd i weld sioe *Babinogi* ac roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

Daeth Rhufeiniwr draw i sôn wrth blant Cwm y Glo am fywyd yn ystod cyfnod y Rhufeiniaid. Roedd yn ddoniol ac yn ddifyr ac roedd y plant a'r athrawon wedi dysgu llawer erbyn diwedd ei sgwrs.



Diolch i Alison a Bryn am ddod draw i'r ysgol yn ystod Wythnos Bio-amrywiaeth. Roedd yr Adran Iau wrth eu bodd yn chwilota am drychfilod o amgylch yr ysgol!

Diolchwn i Ysgol Brynrefail am roi croeso i ddisgyblion Blwyddyn 6 pan aethant draw am ymweliad. Mae pob un ohonynt yn edrych ymlaen at fis Medi!

Yn ystod y tywydd braf diweddar, mae'r Babanod wedi mwynhau sesiynau Cerdd yn yr awyr iach – gobeithio nad oeddynt wedi tarfu yn ormodol ar y trigolion cyfagos!

UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r aelodau yn yr ysgol gymuned nos Lun, 12 Mehefin. Dechreuwyd y cyfarfod gyda gwasanaeth byr yng ngofal Mrs Dorothy Jones, Arweinydd y gangen. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Enid Taylor a Miss Meira Williams. Trafodwyd rhai materion gan Dorothy. Bydd Pnawn Te a Mefus yn cael ei gynnal yn Llanrug ar 22 Gorffennaf. Y mae tocynnau ar gyfer *Songs of Praise* yn

Wrecsam yn awr ar werth am £2. Bydd Trish Heywood, Llywydd Byd Eang, yn bresennol i ddiweddu ei swydd ar ôl chwe blynedd.

Croesawodd Dorothy y wraig wadd, Carol Cooper (Gweithredu ac Ymchwil) Cangen Porthmadog. Cafwyd sgwrs ddiddorol gyda lluniau a fideo ganddi am ei swydd yn y mudiad yma.

Y gwesteion oedd Mrs Menna Roberts a Mrs Margaret Latham,

hwy hefyd roddodd y raffl ac fe'i henillwyd gan Mrs Joyce Ransom. Diolchwyd i Carol a'r gwesteion gan Hilda Orritt. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras a gweddi gan Carol.


LLONGYFARGHIADAU a phob dymuniad da i Cassie a Graham Thomas, Min-y-Nant, ar enedigaeth eu mab bach, brawd bach i Ceinwen.

Yr un yw ein dymuniad i Nerys a Rheon, Bryn Hyfryd, ar enedigaeth mab bach, brawd i Owain a Leigh.

DYMUNIADAU GORAU i blant y pentref sydd yn sefyll arholiadau y tymor yma.



Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun



Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
Ffôn: (01286) 871820

CLWB 100 EGLWYS PERIS.

Enillwyr mis Mai oedd £25: Mrs Rhian Pritchard; £10: Mr John Jackson; £5: Mrs Doreen Roberts.

GŴYL FFAIR NANT.

Helfa Drysor

Nos Sul, 16 Gorffennaf

Cychwyn am 5.30

o'r Vaynol Arms

Pryd o Fwyd ar y

diwedd os dymunir

Enwau i'r Trefnydd: John Ellis
PEN-BLWYDD HAPUS i Jim Cumberton, Ty'n Llan, oedd yn 50 ar 20 Mehefin. Gobeithio iddo fwynhau'r parti.

PEN-BLWYDD HAPUS hefyd i Brian Owen, Dolwen, oedd yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn – yn 60 ar 25 Mehefin.

Blodau
Racca

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn 870605

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/Talking Pages 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu
YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Pensarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Rhwydwaith Papur Bro

Dyn radio yn hytrach na dyn y teli bocs ydwyf i ers misoedd lawer bellach. Ella i ddim meddwl am ddim byd mwy diflas a diog na sombirythu ar un rhaglen ar ôl y llall. Dod adref o'r gwaith. Bwyta fy nhc ac yna ymarfer corff pathetig i fawd fy llaw dde ar y pellreolwr hyd nes ei bod hi'n amser mynd i'r ciando... Mae bywyd yn rhy fyr. Can mil gwell gen i wario llai o amser o flaen y set deledu, bod yn fwy gofalus fy newis - a dewis gwyllo pan yn gyfleus i mi.

Pleser mawr yw cael ymweld â'r ddwy wefan ganlynol o bryd i'w gilydd: www.s4c.co.uk a www.zdf.de. Safwe das zweite deutsche Fernsehen er mwyn gloywi fy Almaeneg, dysgu mwy am Yr Almaen ac, wrth gwrs, gwefan es-ffor-si, gan fy mod yn waschechter Waliser.

Nid oes gan ein hoff sianel ddigon o bres (?) a staff (?) i allu datblygu arlwy Band Llydan sy'n cynnig yr un lefel o amrywiaeth a dewis â'r hyn a geir ar wefan zdf. Ond clod dyledus i benaethiaid Parc Tŷ Glas - cewch hyd i ambell berl os ewch chi i www.s4c.co.uk/bandllydan/c_index.shtml <http://www.s4c.co.uk/bandllydan/c_index.shtml>

Treflan - os na fydd y rhaglenni yma yn ysbrydoli rhywun i ddarllen un o nofelau Daniel Owen yna ni all unrhyw beth. Un o gyfresi mwya uchelgeisiol S4C yn hanes y sianel? Daniel Owen (Portreadau) - Shakespeare a DO - rhaid cymryd sylwadau Derec Llwyd Morgan o ddifrif.


Rhaglen 'rhywbeth at ddant pawb' yw *Wedi 7*. Hoffaf y ffaith y gellir darllen crynodeb o gynnwys y rhaglenni ac yna dewis a dethol pa eitemau/ straeon i'w gwyllo. (Ond pam cynnig cyfieithiad 100% yn yr iaith fain? Nid yw zdf yn cynnig cyfieithiadau slafaidd ar gyfer rhywun na all siarad, deall neu darllen Almaeneg yn hollol rhugl. Mae mymryn o Saesneg ar www.s4c.co.uk <<http://www.s4c.co.uk>> yn iawn - ond dim gormod chwaith! Ni ddylid trin dysgwyr mewn ffordd nawddoglyd a thanbrisio

eu gallu a'u brwdfrydedd wrth ddysgu iaith y nefoedd!) Siart C2 ac unrhyw stori leol i'r fro yma sydd yn cael y flaenoriaeth gen i pan y byddaf yn dewis mynychu caffî rhyngwyd. Ceir dewis o'r bedair rhaglen mwya diweddar - ond byddai'n well gen i weld pob un rhaglen yn cael ei storio mewn archif ar lein i'r gwylwyr.

Ni fyddem yn dewis gwyllo'r rhaglen *Waw Ffactor* yn ei chyfanrwydd, ond roedd arnaf awydd gwyllo pwy enillodd eleni. Pam na chafodd y gwylwr wybod faint yn union o bobl gartref oedd wedi pledleisio? Oni fyddai newid bach fel yma yn ychwanegu at y tensiwn a'r drama cyn clywed enw'r enillydd (cyn belled bod a nifer go dda wedi trafferthu pledleisio)? 'Miloedd wedi pledleisio,' meddai Eleri Sion - ond faint yn union, os gwelwch yn dda?

Cân i Gymru - cynhyrchiad uchelgeisiol iawn - braf gweld S4C yn ddigon dewr i ffilmio'r gystadleuaeth mewn ardal tipyn llai Cymreigaidd na bro'r *Eco* - sef yr Afan Lido ym Mhort Talbot. Ond mae'r pwynt ynglŷn â bod yn hollol agored a gonest gyda'r gwylwyr adref yn un dilys ar gyfer y sioe yma hefyd. 'Dod i mewn yn eu miloedd... Nathoch chi bleidleisio yn eich miloedd,' meddai Sara Elgan. Miloedd ar filoedd? Sawl mil?

Braf gweld S4C yn rhoi blaenoriaeth a sylw haeddiannol i ragoriaeth cerddorol drwy gynnwys WNO - Der Fliegende Hollander a Soprano BACH: Elin Manahan Thomas. Ond os na fydd rhain yn eich gwefreiddio yna ewch am dro i www.bandit247.com <<http://www.bandit247.com>> er mwyn mwynhau math gwahanol o ardderchogrwydd. Mae llawer o bethau Cymraeg wedi trio bod yn cwl ond wedi methu mewn ffyrdd chwerthinllyd - ond mae'r sioe yma'n cwl go iawn! Da gweld hogia lleol talentog Brigyn (www.brigyn.com) <<http://www.brigyn.com>> a Ryan Kift yn serenennu'n genedlaethol a rhyngwladol.



Meddyliwch am y peth - mymryn o ddiddordeb o bedawr ban byd... Ond nid da lle gellir gwell yw hi i'r SRG - Steddfod Lerpwl 07 - collwyd cyfle euraidd! Cofiwch gofrestru er mwyn derbyn cylchlythyr difyr tu hwnt gan griw Bandit.

Efallai na chawsoch gyfle i fynychu Eisteddfod yr Urdd, Sir Ddinbych eleni. Efallai y buoch yn rhy brysur i wyllo S4C diwedd Mai/dechrau Mehefin. Na phoener! Piciwch draw i adran Band Llydan S4C - digon o dalent lleol wedi rhagori. Hoffi'r clip 'Shwd mae, Bonjour, Guten Tag' yn fawr iawn. Diddorol nodi y gellir dewis opsiwn Cymraeg neu English ar safwe S4C ond bod www.urdd.org <<http://www.urdd.org>> yn rhoi pwyslais ar unai Cymraeg neu Bilingual Version - a yw pwysigion yr Urdd yn gwbl hapus gyda'r modd mae'r arlwy wedi ei gyflwyno ar www.s4c.co.uk <<http://www.s4c.co.uk>>?? Ni ddylai'r arlwy presennol yma gael ei ddisodli gan Steddfod yr Urdd 2007 y flwyddyn nesaf. Archif uchelgeisiol sydd ei angen - a digon o gyfle ag amser i lawer o Eisteddfodwyr bro'r *Eco* allu ail-fyw y profiad unwaith eto. Gresyn fod cymaint o stwff cynnar radio Cymraeg wedi ei golli am byth. Gobeithio bod y we yn ei gwneud hi'n llawer anos colli talpiau gwerthfawr o'r diwylliant Cymraeg hyglyw a gwcladwy.

Dwi ddim yn hoffi coginio (Dudley). Nid josgin (Ffermio) mohonaf, a dwi'n rhy hen i wyllo *Uned 5*, felly wna i ddim sôn gormod am y rhain - wel, un pwynt ynglŷn â 'Going Live Cymru' (dangos fy oed?): chwarae teg i'r bobl sy'n gyfrifol am wefan *Uned 5* - wedi gwneud joban dda iawn o greu rhywbeth Cymraeg sy'n cwl a ffasiynol. Mewn gair. mae'n NORMAL.

Pe bawn i yn cael dewis un math o raglen ar gyfer ei hychwanegu at arlwy Band Llydan presennol S4C, yna byddai'r dewis yn un hawdd: rhaglen awran wythnosol yn rhoi sylw i'r wasg Gymraeg. Panel yn trafod *Y Cymro*, *Golwg*, *Barn*, *Yr Enfys*... heb anghofio pob un wan jac o'r papurau bro ar rota deg yn nhrefn y wyddor. Siawns da felly y byddai'r hen *Eco* a *Y Dinesydd* yn cael eu trafod yn ystod yr un

rhaglen? Gall swyddogion a gohebwy'r *Eco* r Wyddfa ymfalchio yn y ffaith fod y papur bro yma'n un o'r goreuon - yn wahanol i un papur prifddinas... Rhaglen sych? Na - dim o gwbl. Gwesteion gonest, di-flewyn ar dafod, sylw haeddiannol i erthyglau, portreadau ac adroddiadau difyr. Oni fyddai rhaglen fel yma yn hwb arall pwysig i wethiant (yng Nghymru a thu hwnt) a safon y cyhoeddiadau? Roedd canran iach iawn o Gymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda sgiliau llythrennedd uchel o'i gymharu a gwledydd eraill. Traddodiad i'w thrysori.

Gawn ni weld *Sioe Gelf*: Siarad mewn Cyfrolau ar Fand Llydan, os gwelwch yn dda? T. H. Parry-Williams - un o wir gewri Eryri. Das Volk der Dichter und Denker - darllennais unwaith ar zdf. A ydym fel cenedl yn llwyddo i ddatlu athrylithoedd ein llên? Rhaglenni yn rhoi sylw i Daniel Owen yn wych - mwy o hyn os gwelwch yn dda.

O'r clasurol i'r poblogaidd, o'r lleol i'r cenedlaethol a rhyngwladol (rhaglen China - agoriad llygad). O'r dramatig (Caerdydd) i'r tangnefeddus ag addysgiadol (Portreadau - Daniel Owen)... Yn y myfyrgell, caffî rhyngwyd, ysgol neu lyfrgell... O Ddeiniolen i Ddenmarc, o Lanrug i Lerpwl, o Waunfawr i Washington D.C., o Benisarwaen i Batagonia ac o Nant Peris i Niedersachsen.

Bydd y dewis yn ehangu, yr ymwelwyr yn cynyddu a'r gwasanaeth yma o Lanisien yn mynd o nerth i nerth.

Mwynhewch yr arlwy - unrhyw le, unrhyw bryd (wel, bron iawn).

MARTIN LLEWELYN WILLIAMS,
Fflat 7D

Darbishire House/Classic Homes
293A Upper Brook Street,
Victoria Park,
Manceinion.

Darparwyd yr erthygl hon fel rhan o gynllun Cyfrannu ar y cyd rhwng BBC Cymru'r Byd ac Antur Teifi. Am fwy o fanylion sut fedrwrch chi gael £30 am ysgrifennu cysylltwch â cyswllt@papurbro.org neu ffoniwch 0845 602 3912.

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

O SIAMBAR SELWYN

Cawsom, fel Swyddogion Gorsedd y Beirdd, wahoddiad i Bontypridd ganol y mis 'ma, i ddathlu pen-blwydd ein hanthem Genedlaethol yn gant a hanner oed. Fe'i cyfansoddwyd ym Mhontypridd gan Evan James, a ysgrifennodd y geiriau, a'i fab, James James, a gyfansoddodd y gerddoriaeth.

Fe gafodd James yr awen wrth gerdded ar lan yr afon Rhondda, a gofynnodd i'w dad ysgrifennu penillion gwladgarol addas. Ond mae yna gefndir Americanaidd i'r stori. Roedd dau o frodyr Evan wedi ymfudo i'r Unol Daleithiau ac wedi llwyddo yno. Ysgrifennodd un ohonynt at Evan yn argymhell y dylai fynd â gweddill y teulu drosodd. Dyna pryd yr ysgrifennodd Evan y geiriau i egluro pam y penderfynodd aros yn 'hen wlad ei dadau a oedd mor annwyl iddo'.

Chafodd Hen Wlad fy Nhadau mo'i hysgrifennu yn arbennig fel Anthem Genedlaethol, ond yn fuan iawn daeth yn ffefryn mewn eisteddfodau, ac erbyn marwolaeth Evan yn 1878 roedd hi wedi dod yn Anthem Genedlaethol i ni. Cafodd fersiwn Llydaweg o Hen Wlad fy Nhadau ei mabwysiadu fel anthem Llydaw yn 1902, ac mae hefyd wedi ei chyfieithu i'r Gernyweg, ac roedd yna gynrychiolwyr o Orseddau Llydaw a Chernyw gyda ni yn y dathlu.

Cynhelid y gweithgareddau mewn pabell fawr ar Barc Ynysangharad, ac mi gefais i wahoddiad i annerch tua pum cant o blant ysgolion cynradd y cylch. Awgrymais i'r plant, pe byddai Evan a James yn fyw heddiw y bydden nhw'n filioners, gan fod yr anthem wedi cael ei chanu fwy o weithiau, reit siŵr, na hyd yn oed 'The Green Green Grass of Home'.

Arwyddair Ysgol Gymraeg Evan James, Pontypridd, ydi: 'O bydded i'r heniaith barhau'. Sefydlwyd yr ysgol yn 1985 gyda 38 o blant ac erbyn heddiw mae yna bron i 450 o blant yn ei mynychu. Gresyn na fyddai holl ysgolion Cymru yn mabwysiadu yr arwyddair 'O BYDDED I'R HENIAITH BARHAU'. Yn anffodus mae yna duedd i'r iaith Gymraeg, mewn nifer helaeth o'n hysgolion ni, fod yn iaith y dosbarth yn unig. Unwaith mae plant yn cael rhyddid yr iard mae nhw'n dueddol o chwarae yn Saesneg. Os ydi plant yn chwarae drwy gyfrwng y Saesneg, yna dydi'r Gymraeg ddim yn iaith fyw, naturiol iddyn nhw.

Ydi, mae'n bwysig dysgu'r iaith ond mae'n bwysicach ei

defnyddio hi ar ôl ei dysgu.

Dywedir i'r anthem gael ei chanu am y tro cyntaf yn festri Capel Tabor, Maesteg, naill ai ym mis Ionawr neu Chwefror 1856, pryd y cenid hi gan gantores o'r enw Elizabeth John o Bontypridd. Ym mis Mawrth 1899, fe recordiwyd yr anthem yn Llundain gan un o'r enw Madge Breese, a dyma'r gân Gymraeg gyntaf erioed i gael ei recordio. Hyd y recordiad oedd un munud ag 17 eiliad.

Yn dilyn y cyngerdd fe gawsom ein cyrchu i lecyn hyfryd uwchben Pontypridd, i'r fan lle bu Iolo Morganwg yn cynnal ei Orseddau cynnar. Yno, wrth gwrs, yr oedd y Maen Chwyf, neu'r Maen Siglo, fel y cyfeirir ato. Hwn, heb os, ydi'r Maen Llog mwyaf yng Nghymru. Yn wir, mae yna ddigon o le ar hwn i gôr neu barti gyflwyno eitem.

Roedd 'na risiau arbennig wedi eu gosod fel y medrwn i ddringo i'w ben heb fawr o drafferth. Mae yna stori ddiddorol am yr Archdderwydd cyntaf, Clwydfardd, fel y cafodd o gryn drarfferth i ddringo'r Maen Siglo (cofiwch, roedd Clwydfardd yn ŵr eitha heini, fe gerddodd i ben yr Wyddfa ag yntau ymhell dros ei bedwar ugain). Ond wrth i'w gyd-Orseddogion geisio ei helpu i gyrraedd y Maen arbennig hwn, roedd Clwydfardd druan yn bryderus ynglŷn â'r trowsus newydd roedd o'n ei wisgo. Roedd o ofn am ei fywyd rhwygo ei drowsus newydd wrth geisio ymbalfalu i gyrraedd safle diogel ar y Maen Siglo.

Ydi, mae'r Maen yn dueddol o siglo, ond rhaid i mi gyfaddef ei fod o'n teimlo'n berffaith gadarn pan ges i'r fraint o sefyll arno, yn wyneb haul llygaid goleunim ar y deuddegfed o Fehefin eleni.

Roedd 'na nifer o blant o ysgolion y cylch o gwmpas y meini a gofynnwyd i mi ddarllen awdl fer o waith Ieuan ap Iago, sef Evan James, a draddodwyd ganddo ar y Maen Siglo ar yr wythfed ar hugain o Fedi, 1850.

Oedd, roedd hi'n fraint arbennig cael sefyll ar y Maen hanesyddol hwn, ple y cynhelid y Gorseddau cynnar, ac fe gawsom ni, gynrychiolwyr Gorsedd y Beirdd, ynghyd â'n cyfeillion o Orseddau Cernyw a Llydaw, amser difyr iawn yng nghwmni plant ardal Pontypridd ar achlysur dathlu pen-blwydd ein Hanthem Genedlaethol yn gant a hanner oed.

Mae'n rhyfedd, er bod 'na gymaint o gysylltiad rhwng tref Pontypridd a'r Gorseddau

cynnar, dim ond un waith mae'r Eisteddfod Genedlaethol wedi ymweld â'r dref, a hynny mor bell yn ôl â'r flwyddyn 1893.

Ys gwn i a genir Hen Wlad fy Nhadau ar achlysur cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol oddi ar y Maen Chwyf, neu'r Maen Siglo, yn ydyfodol agos? Pwy a ŵyr? Digon o waith y ca' i y fraint o sefyll ar y Maen hanesyddol hwn eto, ond fe erys yr atgof am byth.

* * *

Ar dydd Sadwrn, y cyntaf o Orffennaf, fe gyhoeddir Eisteddfod Genedlaethol Sir y Fflint a'r Cyffiniau 2007 yn nhref y Fflint. Dewch yn llu i'r dathlu.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN

AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partion rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718788

wefan: www.ydyncig.co.uk

CERDDED Y FFINIAU NEWYDD



Alun Ffred Jones, Aelod y Cynulliad, yn Rhyd Ddu yn ffarwelio â chriw oedd ar fin cerdded Crib Nantlle. Cefnogwyr Plaid Cymru oedd yn wynebu diwrnod chwyslyd fel rhan o gyfres o deithiau o gylch ffiniau etholaeth newydd Arfon ac i godi arian i ymgyrch

y Blaid. Cafodd y criw a gerddodd yr Wyddfa dipyn o antur pan fu raid iddynt achub dau blentyn a thad oedd wedi dychryn yn y gwynt ar y Grib Goch a'u helpu i ddiogelwch. Bydd y ffiniau newydd yn cael eu cyflwyno am y tro cyntaf yn etholiad y Cynulliad yn 2007.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs:
(01286) 650291

Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

**GLANHAU CARPEDI
GYDA STIMVAK**

Bistro
LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Mai: £40: Mr I. Bracegirdle, 2 Bro Waun; £25: Ms Sali Davies, Tŷ Capel Croes y Waun; £10: Dr Huw Roberts, Liverpool House.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Mewn cyfarfod o'r Sefydliad a gynhaliwyd yn Ffestri Eglwys y Waun ar 1 Mehefin, croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, Mrs Jean Richards o Gricieth, y wraig wadd. Testun ei sgwrs oedd 'Pili Palas'. Gan ei bod yn edrych ar ôl dau berson gwael yn ei chartref dechreuodd gymryd diddordeb yn y grefft o wneud Pili Palas er mwyn cael rhywbeth i symud ei meddwl. Mae'n waith manwl a chywrair iawn: creu gwahanol fathau o'r Pili Palas gyda phapur arbennig, ac yna eu lliwio nes yr edrychant yn union fel rhai byw. Mae yn gwneud pictiws o rai eraill fel cardiau, ac yn gwneud bocsus bach i roi anrhegion ynddynt. Mi fuo Rosemary Bracegirdle yn lwcus gan ei bod wedi ennill un o'r lluniau a oedd wedi ei roi gan Mrs Richards fel raffl. Roedd yr aelodau wedi dotio at ei thalent. Diolchwyd iddi gan Catherine. Enillydd y raffl wedi ei roi gan Betty oedd Frances.

PLAID CYMRU. Cytunodd y gangen i alw ar Lywodraeth Lafur Cynulliad Cymru i fabwysiadu mesurau i atal y llif o bobl ifanc o Wynedd i Gaerdydd a gogledd-ddwyrain Cymru.

Ar lefel leol bydd y gangen yn galw ar Gyngor Gwynedd i gynorthwyo i gael siop i'r pentref. Penderfynwyd pwyso hefyd ar Gyngor Gwynedd i wella wyneb y llwybr beicio, o'r pentref i Gaernarfon, cyn i ddamwain ddigwydd i blant ar y ffordd fawr. Roedd safon uchel Lôn Eifion o'i gymharu gyda thrac beicio Waunfawr yn annerbyniol yn ôl yr aelodau.

Newid dyddiadau: Gorffennaf 8 – Barbeciwn yn yr Antur (nid yn y Frenni).

Diolch i Rhys am drefnu taith gerdded lwyddiannus. Os y byddwch am ymuno â'r digwyddiadau neu ymaelodi â Phlaid Cymru, cysylltwch â'r Ysgrifennydd Aelodaeth: Beryl Jones, Dolcoed, Bodhyfryd (650345).

GENEDIGAETHAU.

Llongyfarchiadau i Haydn a Glenys Jones, Rhandir Mwyn, ar ddod yn daid a nain i Elinor Wyn, merch fach i Alaw a Rheinallt.

Daeth Geraint a Barbara Griffith, Stad Bro Waun, yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd mab bychan, Rhodri, i Mandy a Roger, brawd bach i Sioned ac Owain.

Ganwyd merch fach, Shonna, i Diane ac Aron, chwaer fach i Siôn ac wyres fach i Eirian, 8 Ael y Bryn ac Elwyn Jones.

Llongyfarchiadau i'r teuluoedd a chroeso i'r rhai bach.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref i Erin Roberts, Ael y Bryn, a Heulwen Huws, Argoed. Dymunwn wellhad llwyr a buan i'r ddwy ohonoch wedi i chi dderbyn llawdriniaeth.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dysaf at Mrs Eluned Coles, Stad Bro Waun, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, a oedd yn byw yn Lerpwl.

Yn dawel, bu farw Mrs Mary Carder, Stad Tref Eilian. Anfonwn ein

cydymdeimlad dwysaf i'w merch, Ruth, a'r teulu oll yn eu colled drist. DIOLCH.

6 St David's Road
Abergele

Dymunaf ddiolch i'r cymdogion a ffrindiau yn y Waun am yr holl gardiau a galwadau ffôn a dderbyniais tra yn Ysbyty Glan Clwyd yn ddiweddar. Diolch hefyd i bawb a alwodd yn 'Heli' hefo mam yn holi amdanaf. Rwyf yn awr adref, yn well, ond ddim yn iawn eto. Braf oedd cael bod adra yn y Waun.

Linda
Rydym yn falch dy fod yn gwella, Linda, ac y byddi yn dod adre i'r Waun eto am dro yn ystod gwyliau'r haf. Ein cofion cynnes atat.

GWYLIAU'R HAF. Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg ddiwedd mis Awst. Dymunwn wyliau haf hapus i bob un ohonoch. Blant – cymerwch ofal mawr beth bynnag fyddwch yn ei wneud yn ystod y gwyliau hir! Cofiwch ddod â'ch newyddion i'r Eco i mi erbyn canol Awst ar gyfer y rhifyn nesaf.

YSGOL WAUNFAWR

Twrnament Tennis. Bu 7 tîm tennis yn cymryd rhan yn Nhwrnament Ysgolion Gwynedd yn y ganolfan yng Nghaernarfon ar 13 Mehefin. Llongyfarchiadau i dimau blwyddyn 4, tîm bechgyn blwyddyn 6 ac i dîm genethod blwyddyn 6 am ddod yn ail. Daeth tîm cymysg blwyddyn 5 yn fuddugol. Gwych iawn! Bydd Peter Williams, Shannen Owen, Faye Latham a Tomos Rhys Williams yn mynd ymlaen rŵan i gystadlu yn Nhwrnament Gogledd Cymru ym Mae Colwyn ganol mis Mehefin. Dymunwn bob llwyddiant i'r pedwar ohonynt.

Adroddiad Osian, Bl.6
Mehefin y 13eg fe gefais i, Hugo, Jamie ac Alun, ein dewis i fynd i Dwrnament Tennis yng Nghaernarfon. Fe gawsom ein rhoi yn grŵp A Waunfawr. Ein gêm gyntaf oedd yn erbyn Llandwrog.

Chwaraeais i yn gyntaf ac enillais 3–0, enillodd Alun, Hugo a Jamie 2–1. Chwaraeom yn dda iawn ac roedd hi'n braf cael eistedd ar y fainc a chael diod oer.

Yn yr ail gêm roeddym yn chwarae yn erbyn hogia ysgol Waunfawr, sef tîm B. Roedd hi'n gêm gyffrous ac yn un agos iawn, ond ein tîm ni ddaeth yn fyddugol. Roedd yr haul yn tywynnu ac roeddwn yn chwys doman.

Cafodd ein tîm ni fedalau am ddod yn ail ac aethom yn ôl i'r ysgol gyda gŵen.

Twrnament Rygbi. Bawn Mercher, 24 Mehefin bu rhai o fechgyn blwyddyn 5 a 6 yn cystadlu mewn twrnament rygbi ar y Morfa yng Nghaernarfon a chael pnawn wrth eu boddau gan gyrraedd y trydydd safle. Da iawn chi hogia!

Teithiau Cerdded Noddedig yr Ysgol. Eleni rydym angen prynu 14 o gyfrifiaduron newydd i'r ysgol. Gan fod hyn yn golygu cryn gost rydym wedi trefnu nifer o weithgareddau i godi arian. Trefnwyd dwy daith gerdded noddedig, taith Adran y Babanod i Llynllifon ar 19 Mehefin, a thaith yr Adran Iau o amgylch y llyn yn Llanberis ar 9 Mehefin. Cafwyd dau ddiwrnod gwerth chweil. Dyma argraffiadau dwy o enethod blwyddyn 6.

Adroddiad Elin Griffith, Bl.6
Pob dwy flynedd mi rydym ni fel plant ac athrawon yr ysgol yn mynd ar daith gerdded rownd Llyn Padarn yn Llanberis. Mi aethom wythnos yn ôl ar ddydd Gwener, y 9fed o Fehefin. Roedd yn dywydd braf iawn ac roedd yr haul yn tywynnu.

Cychwynnom wrth ymyl yr hen chwarel gan gerdded o amgylch y llyn, trwy'r caeau a thros y bont a chyrraedd wrth ymyl yr ysbyty. Roedd golygfeydd gwych i'w gweld o'r fan honno. Aethom ymlaen drwy'r goedwig ac roedd y llwybr yn ddigon caregog a chul. 'Whiw,' medda fy ffrindiau, 'rydym ni yn y cysgod, nawn ni ddim llosgi rŵan.' Croesom bont fechan ac roedd y dŵr yn rhedeg yn glir oddi tani a'r adar bach yn canu.

Cyrhaeddodd Fachwen. Wel wir, roedd y ffordd yn brysur. Roedd na geir yn ein pasio i fyny ac i lawr. Dechreuodd Osian, Jammie, Rowan, Chris, Anya, Sioned, Cartin a fi sticio cacimwnci ar ein gilydd, roedd pawb yn cael hwyl. Cyrhaeddodd bont Penllyn ac mi gawsom ginio o'r diwedd. Roedden ni ar lwgu. Wedi i pawb orffen dechreuom gerdded am Lanberis. Gwelsom greyr glas a oedd wedi glanio ar y graig wrth ochr y llyn.

Aethom yn ein blaenau a stopio wrth y toiledau ac fe ddaeth y bws. Cyn i ni fynd dywedodd Mrs Dafydd, 'Wel, da chi wedi bod yn blant da,' Cafodd pawb ddiwrnod da.

Adroddiad Sioned, Bl.6
Cafodd Mrs Dafydd syniad gwych, sef cael taith gerdded noddedig. Cychwynnom ar fore dydd Gwener, y 9fed o Fehefin. Roedd yn ddiwrnod braf, yr haul yn danbaid a'r awyr yn las.

Pan gyrhaeddodd yn Llanberis roedd pawb yn gynhyrfus ac yn llawn hwyl. Cyn dechrau cerdded rhoddodd pawb eli haul a het haul a rhoi eu bagiau ar eu cefnau. Cerddodd pawb yn un neidr hir o amgylch y chwarel ac i fyny heibio'r amgueddfa.

Yna, cyn pen dim, roedd pawb yng nghysgod y goedwig. Teimlais yn falch o fod yn y cysgod. Roedd yr haul wedi gwneud fi a fy ffrindiau yn gysglyd iawn. Yn y goedwig roedd awel braf ac ar ddiwedd y goedwig roedd rhaeadr. Roedd hi mor boeth roedd pawb yn teimlo fel neidio i mewn i'r dŵr oer.

Cawsom ginio ger Penllyn. Roeddwn i a fy ffrindiau yn y cysgod yn stwffio ein gwynebau gyda brechdanau a chreision.

Cerddom ni tua 7 milltir i gyd ond pan dwi'n edrych yn ôl ar y diwrnod roedd yn ddiwrnod gwych!

Noson yn Nhafarn y Snowdonia Parc. Nos Wener, 9 Mehefin, cafwyd noson lwyddiannus yn y dafarn. Trefnwyd y cwbl gan Carmen a mawr yw ein diolch iddi hi. Bu lwcs, tad Guto ac Elis, Meinir Gwilym a Dylan a Neil yn canu a hynny yn rhad ac am ddim er budd yr ysgol. Llwyddwyd i godi £500. Diolch i bawb a gefnogodd y noson.

Diwrnod Hwyl. Trefnwyd diwrnod o hwyl yn Nhafarn y Snowdonia Parc ddydd Sul, 18 Mehefin, gyda stondinau, tombola, tynnu rhaff, ras hwyaid, bandiau yn chwarae'n fyw, reidio cefyllau, paentio wynebau a chastell bownsio. Diolchwn eto i Carmen a'i staff ac i rieni ac athrawon yr ysgol am helpu a chefnogi.

Disgyblion Blwyddyn 6. Bu holl ddisgyblion blwyddyn 6 yn ymweld

â'u hysgolion uwchradd yr wythnos diwethaf. Bu 5 o ddisgyblion yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon, ac 20 o ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail.

Cawsant weld perfformiad o 'Weji', gan Gwmni'r Frân Wen, a chael blas ar wersi amrywiol yn ystod y dydd. Byddant i gyd yn treulio diwrnod yn Ysgol Syr Hugh Owen ddydd Mercher, 21 Mehefin, mewn Gŵyl Chwaraeon.

Plannu Blodau. Diolch i Anna Williams, mam Peter a Tim, am roi o'i hamser i blannu blodau gyda phlant y Babanod. Gweler y lluniau. *Digwyddiadau i Ddod.* Mae diwedd y tymor yma yn llawn prysurdeb unwaith eto – dyma rai dyddiadau i'w cadw mewn cof:

- Ffair Haf flynyddol: 6 Gorffennaf am 6.00pm
- Bydd yr ysgol yn cau ar ddydd Iau, 20 Gorffennaf.

EISTEDDFOD WAUNFAWR.

Cynhelir yr Eisteddfod eleni ar 18 Tachwedd. Edrychwn ymlaen yn fawr i weld eich cefnogaeth.

TIMAU PÊL-DROED IEUENCTID
TYMOR 2005/06

Tîm dan 7 oed

Roedd tymor pêl-droed tîm dan 7 Waunfawr yn un o ddysgu a datblygu, gan fod mwyafrif y chwaraewyr yn rhai blwyddyn 1 ysgol yn chwarae am y tro cyntaf. Ar gychwyn y tymor roedd y sialens yn amlwg gyda chanlyniadau, nid annisgwyl, o golli o 5 a 6 gôl i dimau fel Deiniolen, Llanrug a Chae Glyn.

Daeth tro ar fyd yn Nhwrnament dan 7 y Gynghrair yn y Felinheli ym mis Ebrill, lle bu'r tîm yn llwyddiannus a gallu cyrraedd y rownd gyn-derfynol cyn colli o 1–0 i'r tîm cartref. Da oedd gallu curo timau llawer mwy profiadol, fel Bethel a Deiniolen, 2–0 ar ôl chwalfa y gemau cyntaf ym mis Medi.

Mae'r form yma wedi parhau yn ddiweddar gyda gêm gyfartal 1–1 yn erbyn Cae Glyn yn Waunfawr, a cholli y gêm ddiwethaf yn erbyn Llanrug 1–0, trwy anlwc. Mae'r tîm bellach wedi datblygu yn un anodd iawn i sgorio yn ei erbyn, gydag amddiffyn cadarn a threfnus yn sylfaen i gêm o wrthymosod cyflym a, rhan amlaf, effeithiol.

Gyda chriw da o blant 5–6 oed yn graidd i dîm 2006/07 mae'r gobeithion ar gyfer y tymor nesaf yn fawr. Da hefyd yw gallu trosglwyddo chwaraewyr arbennig o addawol a brwdfrydig i dîm blwyddyn 9 y flwyddyn nesaf.

Tîm dan 9 oed

Fe gafwyd tymor lled lwyddiannus gan dîm dan 9 Waunfawr ac, am unwaith, llwyddo i chwarae y rhan fwyaf o gemau'r gynghrair. Cychwynnodd y tymor gyda thwrnament yn Llanrug, ble colodd Weun yn y gemau cyn-derfynol o 1–0 yn erbyn yr hen elyn – Bethel. Roedd y disgygliadau wedi'r twrnament yn uchel, ond colli fu hanes y tîm yn ein dwy gêm gyntaf yn y gynghrair: yn erbyn Bethel unwaith eto a Llanrug. Ond wedi dweud hynny, roedd y tîm yn chwarae'n dda ac yn dangos awch i chwarae pêl-droed cynhyrfus. Doedd ond un ffordd i fynd, ac roedd hynny ar i fyny, curo Bont a Llanberis cyn cael crasfa gan y gwŷr o Segontium. Un cam yn ôl yn unig oedd hyn, cyn ailafael ynddi a mynd ymlaen i guro Penygroes a chael gemau cyfartal gyda Bont a Llanber.

Roedd yr hogia a'r genod yn chwarae fel *seasoned pros*, ond colli unwaith eto yn erbyn Llanrug cyn gêm orau'r tymor yn erbyn Cae

Glyn. Oeddach chi yno? Am gêm! Roedd y tîm mawr o'r dre fawr ddrwg yn dod i'n pentre bach ni ar ôl dod yn fuddugol o dwrnament Dyffryn Nantlle, ond mi dorwyd crib y ceiliog mewn gêm hynod o gyffrous a aeth rhywbeth yn debyg i hyn:

Waun 0 Cae Glyn 1; Waun 1 Cae Glyn 1; Waun 2 Cae Glyn 1; Waun 3 Cae Glyn 1; Waun 3 Cae Glyn 2. Siawns bod y reff yn barod i chwythu, ond na... Waun 3 Cae Glyn 3. Dyma ni, boddi mor agos i'r lan, ond na roedd y reff hynod diuedd, Mr Clarke (Waunfawr) yn chwarae amser am anafiadau... Waun 4 Cae Glyn 4.

Ac o, mor braf oedd clywed y bib olaf. Gêm a hanner, bechod ofnadwy nad oedd Sky yn bresennol.

Gêm arall gyffrous i ddilyn, yn erbyn Bethel unwaith eto, a hwythau yn dod yno ar ôl curo Llanrug 5-0. Cyfartal ar hanner amser, ond Bethel aeth â hi unwaith eto.

Gyda gemau'r Gynghrair wedi darfog, roedd gan y sgwad dair cystadleuaeth, sef Bontnewydd (yn y glaw), Trefor (yn yr haul... gobeithio) a Thlws yr Eco. Rhaid dweud na chwaraeodd y tîm ar eu gorau yn Bont, ond dwi'n siŵr y bydd yr hanes yn dra gwwahanol pan fyddwn yn teithio i'r twrnament yn Trefor a Thlws yr Eco.

Diolch yn fawr i bawb am fynychu'r ymarferion yn brydlon, a go dda chil

Tim dan 11 oed

Mae'r tîm wedi mwynhau tymor ardderchog arall eto eleni. Gan eu bod wedi chwarae pêl-droed gyda'i gilydd rŵan am 5 mlynedd, maent wedi cynyddu i lefel uchel o bêl-droed ac mae pob aelod wedi dangos eu bod yn gallu chwarae pêl-droed i safon uchel dros ben, yn ogystal â dangos ymrwymiad ardderchog i'r clwb.

Canlyniadau diweddar:

Cae Glyn (i ffwrdd): 1-2
Penrhosgarnedd (adref): 2-4

Llanberis (i ffwrdd): 2-1
Bontnewydd B (twrnament): 1-0
Cwm y Glo (adref): 2-2
Bethel A (twrnament): 1-1
Llewod Llanrug (twrnament): 0-0
Penrhosgarnedd (adref): 2-0

Dymuna Paul a Dafydd ddiolch i'r chwaraewyr sydd wedi cymryd rhan y tymor yma am yr ymrwymiad a'r ymdrech maent wedi ei ddangos. Gobeithiwn eu bod i gyd wedi mwynhau y pêl-droed cyn gymaint â ni!

Bydd y tîm yn symud i fyny i'r gynghrair dan 13 oed yn ystod y tymor nesaf ac felly gobeithiwn y bydd yr aelodau presennol i gyd yn ail-gofrestru a pharhau i chwarae i'r Waunfawr. Gan fod y gemau yn y gynghrair yma i dimau 11-bob-ochr, bydd angen chwilio am fwy o chwaraewyr i gynyddu'r tîm. Os oes unrhyw un yn gwybod am bêl-droedwyr yn yr oedran yma, yna gofynnwch iddynt gysylltu â ni.

Hefyd, gan fod Dafydd yn parhau gyda'r tîm dan 11 y tymor nesaf,

bydd Paul yn chwilio am gymorth i redeg y tîm dan 13. Os oes gennych ddi-ddordeb yna gadewch i Paul Evans wybod.



ORIEL
CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys



Tîm Rygbi Ysgol Waunfawr ddaeth yn drydydd yn y twrnament rygbi.



Disgyblion Cynradd Ysgol Waunfawr ar eu taith gerdded nodedig yn Llanberis



Disgyblion Ysgol Waunfawr yn derbyn medalau wedi eu llwyddiant yn Nhwrmament Tennis Arfon.



Peter, Shannen, Faye a Tomos o Ysgol Waunfawr, fydd yn cystadlu yn Nhwrmament Tennis Gogledd Cymru ym Mae Colwyn.

PENWYTHNOS HWYL

Clwb Peldroed Ieuencid Waunfawr

2006



Nos Iau, Gorffennaf 13 - 6:30pm

Tim o dan 17 v Y Rheolwyr

Cae peldroed Caeathro

Cyflwyno Gwobreuon yn pyb Waun

Dewch i gefnogi eich tîm



Nos Wener, Gorffennaf 14 - 7.00 y nos yn y Ganolfan

Bingo a Disgo Gwisg Ffansi

Lluniaeth / Diodydd ar gael



Dydd Sadwrn, Gorffennaf 15

Diwrnod Peldroed

Cofrestru o 9:30y bore

Canolfan Waunfawr

Gemau peldroed i'r timau

Cyflwyno Gwobreuon

Gem Sêr-beldroedwyr y byd

Bechgyn y pentref



Lluniaeth/Diodydd / Cwn Poeth / Bechdannau
Cysylltwch a Graham am raglen a cylchgrawn (20c)



YSGOL BRYNREFAIL

Ddiwedd mis Mai cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Rhuthun, ac fel yr adroddwyd yn rhifyn blaenorol yr *Eco*, anfonodd Ysgol Brynrefail fintai gref i gystadlu yno. Braf yw gallu datgan fod llwyddiannau wedi dod i'r rhan! Dyma'r criw a ddaeth i'r brig:

Pripicio: grŵp pop Bechgyn Blwyddyn 9: ail;

Anest Eifion: Dawns werin unigol i ferched dan 25 oed: 3ydd

Anest Eifion ac Anest Bryn Jones: Dawns Stepio i ferched dan 25: 3ydd

Ensemble Brynrefail: Ensemble 15-25 oed: 3ydd

Band Pres Brynrefail:

Cerddorfa/Band dan 25oed: 2il.

Siôn Elwyn Hughes: Cyfansoddi Cerddoriaeth: 1af

Y llynedd bu i ni ennill cystadleuaeth y band, ond fe lwyddodd Ysgol Greenhill i adennill tlws a enillwyd ddwywaith ganddynt yn y gorffennol, yn 2003 a 2004. Roedd ganddynt gerddorfa o 107 o blant! Testun balchder felly yw fod criw ifanc Ysgol Brynrefail wedi dod mor agos i'r brig. Roedd y rhan fwyaf o'r band yn ddisgyblion blynyddoedd 7-9. Dyma sylfaen gadarn felly ar gyfer y dyfodol.


Bydd yn rhaid i ni adennill y cwpan felly y flwyddyn nesaf!! Eleni hefyd, roedd Anest ac Anest yn cystadlu mewn oedran newydd a llwyddasant i ennill eu lle ar y

llwyfan cenedlaethol o dan 25 oed. Tipyn o gamp yn wir!!

Y tu ôl i bob llwyddiant mae criw o bobl sy'n gweithio'n ddiflino gyda'r bobl ifanc hyn er chanu cu gorwclion diwylliannol a rhoi cyfleoedd iddynt flasu profiadau newydd. Eleni roeddem yn ffodus o gael dau arbenigwr yn eu priodfeysydd i arwain y disgyblion. O ran dawns, roedd Mrs. Judith Harding o Benisarwaen yn hyfforddi'r disgyblion, ac o ran y band pres a'r ensemble, roeddent dan arweiniad Mr. Bari Gwilliam. Hoffem ddatgan ein gwerthfawrogiad i'r ddau ohonynt am eu harbenigedd a'u parodrwydd i gynnig cyfleoedd arbennig i ddisgyblion Ysgol Brynrefail. Bydd Mrs. Harding yn parhau i'n helpu y flwyddyn nesaf, ond gan fod Mr. Gwilliam newydd sicrhau swydd fel Pennaeth ar yr Adran Gerdd yn Ysgol Gyfun Llangefni, bydd yn rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn curo'i ysgol newydd o y flwyddyn nesaf!!

Llongyfarchadau iddo ar ei benodiad.

Dymuna pawb fu ynghlwm â'r cystadlu mewn unrhyw ffordd ddiolch o waelod calon i'r disgyblion am eu hymddygiad a'u hymrwymiad di-gwestiwn. Braint a phleser oedd cael treulio'r diwrnod yn eu cwmni. Yn awr edrychwn ymlaen at sbri'r cystadlu ar gyfer Caerfyrddin y flwyddyn nesaf!!



Anest ac Anest yn stepio.



Yr ensemble jazz yn perfformio 'Blues i Al', Trefniant, Mr. Bari Gwilliam

Canlyniadau Athletau Ysgolion Eryri – Mehefin 10fed 2006

Yn dilyn llwyddiant disgyblion yr ysgol yn y rowndiau rhanbarthol, aeth carfan gref o ddisgyblion yr ysgol i gaeau Treborth yn ddiweddar i gystadlu ar lefel sirol. Dyma'r disgyblion a ddaeth i'r brig:

Genethod dan 15

Ella Christie: 2il – Clwydi

Danielle Cavanagh: 2il – Naid uchel

Bechgyn dan 15

Llion Jones: 1af – 1500m

Andrew Woodcock: 1af – 800m

Andrew Woodcock: 3ydd – 1500m

Tomos Owen: 2il – Naid uchel

Tomos Owen: 3ydd – Naid driphlyg

Dafydd Ngaia: 3ydd – Disgen

Dafydd Ngaia: 3ydd – Pwysau

Genethod dan 17

Hawys Price: 1af – Naid uchel

Hawys Price: 2il – Naid driphlyg

Bechgyn dan 17

Ioan Jones: 2il – 200m

Ioan Jones: 3ydd – 100m

Genethod dan 19

Alaw Ceris: 1af – Naid polyn

Gwenonwy Alun: 2il – Naid polyn

Bechgyn dan 19

Ifan Jams: 1af – Clwydi

Ifan Jams: 2il – Naid uchel

Bydd Ifan Jams, Alaw Ceris, Iwan Arwel Jones, Andrew Woodcock, Hawys Price a Llion Jones yn mynd ymlaen i gynrychioli Eryri yn y gystadleuaeth genedlaethol yn Abrehonddu fis Gorffennaf. Pob lwc iddynt yn wir, a llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu.



Hawys, Andrew, Iwan a Llion.



Y band pres yn perfformio.



J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael –

Ffôn: (01286) 672898 (dydd) 676285 (nos)

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740



YSGOL DOLBADARN

Ymdeoliad

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig cyn y Sulgwyn i ddiolch i Anti Glenys am ei gwasanaeth arbennig i'r ysgol fel glanhawraig am 18 mlynedd. Cyflwynwyd blodau ac anrheg iddi ar ran y staff a'r disgyblion. Roedd pawb yn edrych ymlaen at weld Mrs Owen yn dod i'r ysgol ar ddiwedd y dydd gan ei bod bob amser mor siriol a hwyliog. Dymunwn pob dedwyddwch iddi ar ei hymdeoliad.

Ffarwelwyd hefyd â Miss Audra sydd wedi bod yn helpu disgyblion yn yr ysgol ers peth amser. Dymunwn y gorau iddi yn ei swydd newydd.

Croeso arbennig i'n tîm gofalu a glanhau newydd, sef Mr a Mrs Fretwell. Mr Fretwell yw'r bos yn yr ysgol ond wyddon ni ddim am adref! Gwyddom, fodd bynnag, bod y gwaith mewn dwylo diogel.

Llwyddiant Mewn Chwaraeon
Bu unigolion o'r ysgol yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth trawsgwlad i Eryri a Chonwy. Roedd yn agos i 50 yn cystadlu ym mhob ras. Cafodd Huw 1af a Kurt 3ydd yn y ras i fechgyn Blwyddyn 5, Owain 2il i fechgyn Blwyddyn 6, a Kate Pritchard 4ydd yn ras genethod Blwyddyn 4. Cafodd Hannah, Gwen ac Elinor hefyd safleoedd da yn ras genethod Blwyddyn 4.

Cafodd tîm yr ysgol llwyddiant arbennig yng Ngala Nofio Arfon yn ddiweddar. Cafodd Kurt 1af yn y ras pili palas, Huw 1af yn y ras dull broga, Owain 2il yn y ras rhydd, Daniel 2il yn y ras nofio ar y cefn, a Kate ac Elinor 3ydd yn y ras nofio rhydd. Cafodd bechgyn Blwyddyn 5 gyntaf hefyd yn y ras gyfnewid.

Llongyfarchiadau mawr i chi.

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau hefyd i Huw Owen ar ei llwyddiant yn dod yn ail yn yr unawd prês dan 12 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Rhuthun.

Ymwelwyr Morbegno

Dydd Mawrth ar ôl hanner tymor daeth athrawon o Ysgol G F Damiani ym Morbegno, gefeilldref Llanberis, i'r ysgol am y diwrnod.

Roeddynt wedi paratoi llawer o weithgareddau a gemau i'r plant fel eu bod yn cael dechrau dysgu Eidaleg. Roeddynt yn gweld nifer o bethau'n wahanol iawn i'r hyn sy'n yr Eidal - gwisg ysgol, arddangosfeydd ar y waliau, plant yn gweithio mewn grwpiau ac adnoddau fel cyfrifiaduron. - ond yn gweld llawer yn debyg hefyd, yn arbennig natur plant. Mae'r plant yn sicr yn elwa o'n cyswllt efo'r ysgol yn yr Eidal ac wedi dysgu llawer am y wlad, y bobl ac ambell air Eidaleg hefyd.

Prosiect Kyffin Williams

Dros dymor y gwanwyn bu Blwyddyn 4 yn gweithio ar brosiect celf ar waith yr arlunydd Kyffin Williams dan arweiniad Mrs Brookes. Roedd pecyn gwaith wedi ei gyhoeddi gan Wasg Gomer a gwahoddwyd yr ysgol i arddangos y gwaith gorffenedig yn Galeri yng Nghaernarfon fel rhan o'r ŵyl, Bedwen Mai.

Agorwyd yr arddangosfa gan yr arlunydd Catrin Williams. Canmolodd ansawdd yr arddangosfa o ran amrywiaeth y cyfryngau a safon y gwaith gorffenedig.

Mae Kyffin Williams ei hun wedi derbyn cyfrol o ffotograffau o waith y plant ac wedi eu canmol yn fawr.

Taith Gerdded

Trefnwyd taith gerdded ar ddiwedd Mai fel rhan o'r ymgyrch *Walk2Live*. Buom yn ffodus iawn i gael diwrnod sych ar gyfer y daith ar hyd y llwybyr beicio. Bu'n daith lwyddiannus iawn o ran codi arian ar gyfer yr ystafell gyfrifiadurol newydd ac o ran bod yn b'nawn difyr. Diolch i bawb sydd wedi noddi'r plant ac i'r rhieni ymunodd yn y daith.

DYMUNA Daniel Orritt, 7 Blaen y Ddôl, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn ddeg oed yn ddiweddar.

DYMUNA Mrs Kathleen Williams, 6 Glanrafon Bungalows, ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a ddangoswyd ati ar ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

DIOLCH. Hoffai Bill Pitts, 5 Glanrafon, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur ei ben-blwydd yn 80 oed ar 6 Mehefin. Diolch am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd a diolch i bawb wnaeth ffonio a galw heibio. Diolch arbennig i Menai am y wledd ardderchog a wnaeth iddo.

HOFFAI Menai Lloyd Pitts, 5 Coed y Glyn, ddiolch o galon i'r teulu a ffrindiau am wneud ei phen-blwydd diweddar yn un cofiadwy. Diolch i bawb am yr hwyl a'r caredigrwydd, diolch am y cardiau ac anrhegion. A diolch arbennig iawn am y rhoddion hael o £625 i Ymchwil Cancr Cymru.

DYMUNA Mrs Nanw Lloyd Jones a theulu'r diweddar Charles Wilson Jones, Kidderminster, a'r teulu yn Llanberis ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu



Rhai o blant Blwyddyn 2 yn chware snap efo un o athrawesau Morbegno.

profedigaeth sydyn ar 26 Ebrill.

Diolch hefyd am y rhoddion er cof am Wilson a gyflwynwyd i Gymdeithas Down Syndrome Caerwrangon ac i Ymchwil y Galon.

DYMUNA Mrs Jean Roberts, 7 Dôl Eilian, ddiolch i'w holl deulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau ac ewyllys da a dderbyniodd pan gafodd ddamwain yn ei chartref.

DYMUNA Mrs Iona Jones, 40 Afon Terrace, ddiolch yn ddiffuant i'w theulu a'i ffrindiau am y nifer fawr o gardiau, galwadau ffôn, blodau ac anrhegion a dderbyniodd pan oedd yn yr ysbyty yn Whiston rai wythnosau yn ôl.

Diolch i'r Parchedig John Pritchard am alw yn yr ysbyty i'w gweld. Diolch yn fawr i'r meddygon, Robin Parry, Gwyn Williams a Geraint Roberts am eu gofal a'u cydweithrediad ac i Staff y Clinig a'r Feddygfa yn Llanberis am eu parodrwydd bob amser.

CYMDEITHAS YR EGLWYS. Cafwyd noson dda iawn o'r gymdeithas pryd y cyflwynodd Anne y gŵr gwadd, sef Andre, i roi sgwrs ar waith Ambiwlans Awyr

Cymru. Gwirfoddolwr oedd o gyda'r gwaith yma ac fe gafwyd braslun o waith y mudiad yma sy'n eithriadol bwysig yn ein hardal ni yn Eryri, gyda chymaint o ddamweiniau ar y mynyddoedd. Mae'r gwasanaeth yn dibynnu yn helaeth iawn ar gyfraniadau gwirfoddol i'w redeg, gan fod y gost flynyddol yn gallu bod yn 1.5 miliwn o bunnau.

Diolchwyd i'r gŵr gwadd gan Gwynfor Williams ac hefyd i ferched y te a'r raffl, sef Heulwen Lewis a Beth Owen. Yr enillydd lwcus oedd Moreen Lennon.

YMDDEOLIAD. Dymuna Glenys a Gwilym Owen, 9 Stryd yr Wyddfa, ddiolch o galon i'r athrawon, y prifathro, y staff, rhieni a phlant Ysgol Dolbadarn am eu dymuniadau gorau a'r anrhegion ar ymdeoliad Glenys o'r ysgol wedi deunaw mlynedd.

CYWIRIADAU I'R RHIFYN DIWETHAF. Aeth yr arian a gasglwyd yn y cyngerdd 'Canu er mwyn Pleser' at Capel Coch, nid at Gronfa Lewis Caergybi.

Bu'r Côr Meibion yn cadw cyngerdd ym mhentref Golan ac nid yn y Gorlan.



Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfynedig drwy Warant 3420271



MANTELL
GWYNEDD

Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

YR YSGOL GYNRADD

Theatr Mewn Addysg. Daeth cwmni Theatr y Frân Wen i'r ysgol i gyflwyno perfformiad o 'Weji'. Cyflwyniad oedd hwn ar gyfer plant blwyddyn 6 sy'n trosglwyddo i Ysgol Brynrefail ym mis Medi. Mwynhaodd pawb y cyflwyniad yn fawr iawn.

Taith Caerdydd. Wedi cryn edrych y mlaen, fe ddaeth yr amser i nifer o ddisgyblion blwyddyn 5 fynd ar y bws i Gaerdydd. Roedd gwledd o ymweliadau wedi eu trefnu ar eu cyfer, gan gynnwys Castell Caerdydd; Techniquet; Arddangosfa *Dr Who* a thrip o gwmpas y bae mewn cwch. Bu cyfle i ymweld â'r Senedd - diolch i Mr Alun Ffred Jones am y croeso.

Eleni, roedd ymweliad ag Amgueddfa'r Glannau, Abertawe, hefyd wedi ei drefnu. Gyda'r nos bu pawb yn gwyllo ffilm yn y sinema ac yn bowllo deg. Cyrhaeddodd pawb yn ôl ar y nos Fercher ar ôl tridiau prysur iawn wedi blino'n lân. Dymuna'r plant ddiolch i'r athrawon a aeth ar yr ymweliad.

Turnament Rygbi. Bu rhai o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth rygbi a drefnwyd gan Clive James. Cafwyd diwrnod ardderchog a chystadlu brwd am y darian. Bontnewydd oedd y pencampwr eleni.

Rygbi. Llongyfarchiadau i Rhodri Gruffudd, blwyddyn 6. Cafodd Rhodri ei ddewis fel aelod o dîm dan 11 Gogledd Cymru i chwarae yn erbyn tîm De-ddwyrain Cymru yn Llanidloes.

Cystadleuaeth i-pod.

Llongyfarchiadau i Sharon Owen, mam Elin a Mared, ar ennill yr i-pod. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Mabolgampau'r Urdd. Bu amryw o blant yn cymryd rhan ym

mabolgampau'r Urdd ar gae Ysgol Syr Hugh Owen. Da iawn chi am wneud eich gorau. Dymunwn yn dda i'r rhai fydd yn mynd ymlaen i fabolgampau'r Sir ar gaeau Treborth.

'OES RHYWUN YN COFIO?'

Daeth Emlyn Jones, Kenard, Ffordd Glanffynnon, â'r wybodaeth yma am y llun oedd yn yr *Eco* y mis diwethaf:

'Tîm Llanrug ydyw, 1936, ac roeddent yn chwarae ar gae Fferm Glasgoed.

Rhes ôl: Arthur Pritchard, Myrddin Williams, John Ellis Jones, Myrddin Parry, Bob Orritt, Caerwyn Griffith.

Rhes Flaen: Robin Tom Roberts, Nowie Jones, Gruffydd Emlyn, Sadi Evans, Ivor Bach, Rhos Ddu.

Diolch yn fawr am y wybodaeth. CLWB CANT Y SEFYDLIAD COFFA. *Enillwyr Mai:* £20: G. Roberts, 11 Nant y Glyn; £7: Mrs G. Kirkpatrick, 21 Hafan Elan; £5: Mrs D. Jones, 12 Hafan Elan.

Enillwyr Mehefin: £20: G. Hughes, Eithinog; £7: A. Jones, 12 Hafan Elan; £5: Mrs M. Parry, Bryn Heli. DIOLCHIAU. Dymuna Fflur Angharad Griffith, Llecyn, ddiolch am yr holl gardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 18 oed.

DIOLCH. Dymuna Bet, Lyndale, a'r teulu ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mab a brawd annwyl. Rhoddwyd yr arian i Ysbyty Christies, Manceinion, ac i'r Hospis yn Llandudno. Diolch yn fawr iawn.

BABIS NEWYDD.

Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Ceren a Martin, Llain Gro, ar enedigaeth mab bach, Dulyn, brawd i Siôn ac ŵyr i Elwyn ac Anwen Roberts.

Hefyd i Daniel a Iola, ar enedigaeth merch fach, Lowri

Non, chwaer i Elin Daniel ac wyres i Gareth a Jennifer Thomas a Myfyr a Wendy Parry. Pob bendith. Hefyd i Gareth a Heather Williams, Alwyn, Ffordd Glanffynnon ar enedigaeth eu mab bach, Ellis Wyn, brawd i Chris.

PRIODAS. Priodwyd Delyth, merch Norman a Jane Jones, 4 Disgwyllfa, a Geraint Jones yng Nghastell Deudraeth ar 3 Mehefin. Maent wedi ymgartrefu yn Stryd Elinor, Caernarfon. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch.

Hefyd fe briododd Bethan, merch Selwyn a Betty Roberts, Meifod, a Mike Haughton ar 12 Mehefin yn Gretna Green. Pob dymuniad da i chwithau.

GWELLHAD BUAN. Dymunir gwellhad buan i Elizabeth Jones, 1 Bryn Heli. Cafodd ddamwain yn ei chartref ac mae wedi treulio amser yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd yr un dymuniadau i Siân Williams, Cartref. Brysiwch wella.

DIOLCH. Dymuna Eirlys (Pierce) ddiolch yn gynnes iawn am y gofal a'r caredigrwydd a dderbyniodd yn ddiweddar. Diolch yn arbennig iawn i ffrindiau a theulu am eu cynhaliadau a'u ffyddlondeb.

CAPEL Y RHOS. Anaml y gwelwyd y capel mor lliwgar ag yn ystod gwasanaeth arbennig Cymorth Cristnogol fore Sul, 21 Mai. Yn ei sgwrs i'r plant, soniodd Len Brookes am yr ambarél sy'n cysgodi, yn amddiffyn ac yn dod â phobl at ei gilydd, yn union fel y gwna Cymorth Crisnogol. Cododd pawb ei ambarél ac roedd y capel yn fôr o liw. Cymerwyd rhan gan blant ac aelodau o bob oed, mewn gwasanaeth wedi ei addasu gan y gweinidog, y Parch Dafydd Hughes, a'i drefnu gan Mair Huws. Yn ystod yr wythnos bu aelodau holl eglwys Llanrug o gwmpas yn casglu arian o ddrws i ddrws at Gymorth Cristnogol, ac fe gasglwyd £1,633, mwy nag erioed o'r blaen.

Fore Sul, 4 Mehefin, derbyniwyd pump o bobl ifanc yn aelodau cyflawn o'r eglwys, sef Bethan Griffith, Penrhiw, Llanrug; Nia Fflur Jones, Glasfryn, Ceunant; Stacey Joanne Wynne, Gilfach, Tan-y-coed; Aled Rhys Williams, 19 Glan Ffynnon, Llanrug a Dylan Jones, Oaklea, Ceunant. Roedd y pump ohonynt yn cymryd rhan yn y gwasanaeth a gweinyddwyd y Cymun gan y gweinidog.

Sul, 18 Mehefin, oedd Sul olaf y

Parch Dafydd Hughes fel gweinidog Capel y Rhos, a chynhaliwyd cyfarfod arbennig i gydnabod a diolch am ei wasanaeth fel bugail ar yr eglwys. Yn ei deyrnged diolchodd lolo Llywelyn iddo am ei arweiniad i'r eglwys yn ystod y deng mlynedd diwethaf cyn cyflwyno tysteb iddo fel arwydd o werthfawrogiad yr eglwys o'i wasanaeth. Cyflwynwyd blodau i Mrs Hughes gan rai o blant yr Ysgol Sul, dan ofal Beryl Thomas. Yn ystod y gwasanaeth, bedyddiwyd Beca, merch Gethin a Jane Vaughan Parry, a chyflwynodd Meirwen Lloyd tua hanner cant o'r plant i dderbyn tystysgrifau am lwyddo yn Arholiad Llafar yr Ysgol Sul. Gwahoddwyd pawb i'r festri ar ôl y gwasanaeth i fwynhau paned a sgwrs.

PLAID CYMRU. Cynhaliodd Cangen Llanrug o Blaid Cymru eu Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol nos Fercher, 14 Mehefin, yn y Sefydliad Coffa, a phleser oedd cael croeswawu Richard Thomas, Trefnydd yr Etholaeth, yn ôl i'r swyddfa yng Nghaernarfon ar ôl cyfnod o weithio yn y Brifysgol.

Cafwyd adroddiadau gan y swyddogion ar waith y flwyddyn. Ail-etholwyd Phyllis Ellis yn Gadeirydd, Meirwen Lloyd yn Drysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth, Berwyn a Pat Parry Jones yn Drefnwyr y Clwb Cant, a Llinos Davies yn Ysgrifennydd.

Etholwyd y Cyngorydd Charles Wyn Jones yn Is-gadeirydd. Penodwyd cynrychiolwyr y gangen i'r Pwyllgor Etholaeth, y Cyngor Cenedlaethol a'r Gynhadledd, a gynhelir ym mis Medi.

Soniodd Richard am y trefniadau ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2007, a'n hysbyrdoli i gyd i ddechrau gweithio.

Tynnwyd y raffl am ddarlun hardd o Ddyffryn Mymbyr o waith yr arlunydd, Frank Green, a'r enillydd oedd Enid Williams, Rhos Rug. Enillwyr y Clwb Cant am y misoedd diwethaf:

Chwefror

Deiniol Evans ag Einir Gwyn.

Mawrth

Iwan Roberts a Margaret Jones.

Ebrill

Olwen Llywelyn a James Jones.

Mai

Meirwen Lloyd a Frank Green.

Mehefin

Hefin Jones a Eirwen Rowlands.

Sychlanhau • Altro

Ailwnio

Gwasanaeth

Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr

Llanberis

Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

PLAID CYMRU
DEINIOLEN



Panad a sgwrs gydag
Alun Ffred Jones AC

Tŷ Elidir, Deiniolen,
nos Iau, Gorffennaf 13
am 7.30yh

Croeso cynnes i bawb

Plaid Cymru
8 Stryd y Castell, Caernarfon 01286 672510

DEINIOLLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

DYMUNA Mrs Margaret Cynfi Griffith ddiolch i'w theulu ac i'w chyfeillion am eu caredigrwydd yn ystod ei salwch diweddar. Diolch am y cardiau hardd, am y llythyrau a'r rhoddion, ac am yr ymweliadau gan bawb i Ysbyty Eryri, Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref. Diolch o galon.

DYMUNA Mrs Margaret Owen, 42 Rhydfadog, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd tra yn derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Diolch am y cardiau a'r rhoddion ac am yr ymweliadau yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

Diolch arbennig i feddygon a staff Ward Ffranccon, Ysbyty Gwynedd.

ER COF AM DONALD JONES a hunodd 20 Mehefin, 2006

Aiff heibio ei hoff Eban – i'w haeddiant

Yn heddwch Ei gorlan;

Un taer, bu'n gadarn drwy'r tân,
Anwylodd ei Ddeiniolan

RLJ

YSGOL FEITHRIN. Os ydych eisiau cofrestru eich plentyn i ddechrau yn yr Ysgol Feithrin ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau ym Medi 2006, mae'r Ysgol Feithrin yn derbyn enwau yn awr. Cysylltwch gyda'r Arweinydd, Mrs Sian Roberts, ar 07969 635944, neu galwch draw yn yr Ysgol Feithrin cyn gynted â phosib.

Bydd bore croesawu'r plant a rhieni newydd yn cael ei gynnal ar 3 Gorffennaf am 11.15 o'r gloch yn yr Ysgol Feithrin. Edrychwn ymlaen i gyfarfod y plant fydd yn cychwyn ym mis Medi 2006 gyda'u rhieni i gael sgwrs a gwybodaeth anffurfiol dros banded.

Cynhaliwyd y trip blynyddol eleni i Barc Henblas yn Ynys Môn ar 14 Mehefin. Roedd llond bws o

blant a'u rhieni wedi mynychu ac wedi cael diwrnod arbennig yn llawn hwyl, gweithgareddau, tywydd braf a llond bol o bïcnïc!

GWARCHODFA PLANT – Tŷ TWT GLWT Y BONT. Dymuniadau gorau i Tracey a Ceirion, sy'n dathlu llwyddiant eu cais cynllunio diweddar, sydd wedi sicrhau y byddant yn medru cadw'r warchodfa yn agored i 12 o blant.

Mae'r perchnogion, y rhieni a'r Cynghorydd Len Jones wedi brwydro yn erbyn argymhellion a roddwyd gan Gyngor Gwynedd i leihau'r niferoedd o 12 i 6 o blant, ac wedi bod yn llwyddiannus yn eu hymdrechion.

Mae'n bwysig iawn cydnabod adnodd mor bwysig a gwerthfawr ydyw gwarchodfa plant ddwyieithog o'r fath i gymunedau bychain fel Deiniolen a Chlwt y bont. Heb yr adnodd yma byddai'n anodd iawn i rai teuluoedd allu parhau gyda'u gwaith a'u bywydau o ddydd i ddydd arferol.

Dymuna'r holl rieni ddiolch i Tracey a Ceirion am eu dyfalbarhad i sicrhau llwyddiant yn ystod y cyfnod hir o ansicrwydd oedd yn eu hwynebu hwy a dyfodol Tŷ Twt.

BAND DEINIOLLEN. Cynhelir Cyngerdd Blynyddol y Band yn Ysgol Brynrefail, Llanrug nos Wener, 14 Gorffennaf am 7 o'r gloch. Bydd Dilwyn Pierce yn cyflwyno Band Deiniolen, Y Band Ieuencid, Cafi Wyn (enillydd yr Eisteddfod yr Urdd eleni), Alaw Tecwyn (Rhiw, Aberdaron), Anest Bryn a Chôr Aelwyd yr Ynys.

Tocynnau i'w cael wrth y drws, Oedolion: £5, Plant: £2. Dewch yn llw i fwynhau y noson.

Bydd bws am ddim yn cychwyn o Ddinorwig am 6.00 o'r gloch ac yn codi yn Rhydfadog, Stryd Fawr, Hafod Olau, Pentre Helen, Clwt-y-bont a Phenisarwaun.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Paul a Nia, 5 Trem Eilian, ar enedigaeth eu mab bychan, Osian Rhys, ar 7 Mehefin. NOSON PLYGU'R ECO. Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth ynghyd i'r Caban nos Iau, 1 Mehefin, i hwyluso'r gwaith o blygu'r Eco a chwblhau'r gwaith yn brydlon cyn saith o'r gloch. Diolch i John McBryde am gyrchu'r Eco o'r wasg ac i'r gyfarwyddwraig, Eluned Davies, am bob cydweithrediad.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. Y GYMDEITHAS. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Ganolfan nos Iau, 8 Mehefin. Mr John McBryde, Bryn Llwyd, oedd Cadeirydd y noson. Ar ddechrau'r cyfarfod arweiniodd mewn defosiwn allan o'r Gwynfydau, perthnasol i destun y wraig wadd, sef 'Gofal mewn Galar'.

Rhodddwyd croeso arbennig i Gwen Aaron, Rhiwlas, i sôn am ei gwaith fel aelod o 'Cruse', cymdeithas sydd â'i haelodau yn ceisio rhoi cysur i gyfeillion yn

wyneb profedigaethau o golli anwyliaid. Uchafbwynt ei sgwrs oedd adrodd am y profiad a gafodd fel un o dîm a aeth allan i Efrog Newydd i estyn cymorth yn dilyn canlyniadau erchyllterau 9/11. Diolchwyd i'r siaradwraig gan y Cadeirydd ac ymatebodd nifer oedd yn bresennol i nifer o sylwadau a wnaed. Paratowyd lluniaeth gan Lowri Roberts Williams a Joan Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, 13 Gorffennaf pryd y disgwylir cael cwmni Rol Williams, Waunfawr.

OEDFAON GORFFENNAF.

- 2: 2.00: Parchg. Ddr Elwyn Richards, Caernarfon. Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd;
- 9: 2.00: Parchg Ddr Dafydd W. Williams, Bangor;
- 16: 5.30: Mr Robert Morris, Penygroes;
- 23: 5.30: Parchg Gwenda Richards, Caernarfon.
- 30: 5.30: Mr John H. Hughes, Llanberis.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Mrs Megan Morris, Minffordd, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 91 oed, Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Katie Lloyd Hughes, sydd yn cartrefu ym Mhlas Garnedd, Llanberis ar hyn o bryd, ar ddathlu ei phen-blwydd hithau yn 92 oed. Mae yr ardal yn dymuno yn dda i'r ddwy ohonoch ac yn dymuno llawer blwyddyn arall i chwi. Pob bendith ac iechyd i'r blynyddoedd a ddel.

Deall bod y ddwy wedi mwynhau eu diwrnod ac yn

edrych ymlaen i'r dyfodol gyda hyder.

CLWB ORWIG. Mewn cyfarfod o'r uchod ddechrau Mehefin, croesawyd yr aelodau gan y Llywydd. Enillwyd y gystadleuaeth posau hwyliog oedd Margaret Faulkener a Terry Taylor, a darllenwyd darn ysgafn o'r enw 'Yr ydym wedi goroesi' gan Morfudd Jones a Nellie Wyn Jones.

Gwahoddir yr aelodau i gartref John Cantrell i fwynhau barbaciu ar ddechrau Gorffennaf a threfnir taith y clwb yn gynnar ym mis Awst.

Derbyniodd Megan Morris dusw o flodau a cherdyn ar ei phen-blwydd. Enillwyd y gwobrau raffl oedd Terry Taylor, Megan Morris, Kathleen Davies a Betty Bower. Rhodddwyd y te gan Betty Ann Jones, Elizabeth Jones a Kathleen Davies.

TYMOR Y GWYLIAU. A ninnau yn wynebu tymor yr haf bydd llawer o fynd a dod a rhai yn mynd dros y môr am y gwledydd poeth. Does dim ond gobeithio y bydd y rhai sydd yn aros gartref yn cael tywydd braf a chynnes.

Yr ydym yn dymuno'n dda i'r rhai fydd yn cael canlyniadau eu arholiadau a hefyd y rhai fydd yn gadael yr ysgol am y tro olaf.

Beth bynnag fo'r sefyllfa, dymuniadau gorau a gwyliu hapus i bawb.

Atodiad

Nant Peris

Cynhelir Pwyllgor Blynyddol Canolfan Gymdeithas Llanberis yn y Ganolfan am 7.00 o'r gloch nos Lun, 10 Gorffennaf. Croeso i bob mudiad anfon cynrychiolydd.

Cymanfa Ysgolion Sul Cylch Padarn

Cynhaliwyd y Gymanfa yng Nghapel Cefnywaun,

Deiniolen, bnawn a nos Sul, 7 Mai. Arweinydd y gân oedd Mrs Mererid Mair Williams, Penmaenmawr, ac yn cyfeilio roedd Mrs Bethan Holding a Mr Gareth Jones, Llanberis. Cymerwyd y gwasanaeth dechreuol yn y pnawn gan y Parchedig John Pritchard a'r hwyr gan Marian Jones. Bu'r canlynol yn llwyddiannus yn y maes llafur:

Dan 4 oed: Nicole Evans, Sara Fflur Henderson, Eban Peris Jones, *Capel Coch*; Bodwyr Lewis Jones, Gwenllian Dauncey Griffiths, Owain Lewis Jones, *Cysegr*; Becca Madi Jones, Glain Meleri Hughes, *Deiniolen*.

Dan 5 oed: Aled Pritchard, Iolo Llywelyn, *Capel Coch*; Elen Haf Jones, *Cysegr*.

Dan 6 oed: Alaw Meleri Henderson, Aron Gwynant,

Môli Jones, Ffion Williams, *Capel Coch*; Tomos Jon Evans, Elen Haf Gwynne Ifans, *Cysegr*; Prys Wyn Hughes, *Deiniolen*.

Dan 7 oed: Megan Pritchard, Elin Haf Roberts, *Capel Coch*; Lisa Haf Hughes, Gwion Wyn Jones, Hari Gwynne Ifans, *Cysegr*; Bethan Tong, *Deiniolen*.

Dan 8 oed: Gethin Wyn Harper, Elli Jones, Rhydian Price, *Cysegr*; Emma Tong, *Deiniolen*.

Dan 9 oed: Gareth Pritchard, Elli Saynor, Hannah Duncan, Gerallt Morris, *Capel Coch*; Elli Cerain Hughes, Catrin Ellen Jones, Daniel Wyn Jones, *Deiniolen*.

Dan 10 oed: Kimberley Jones, Adam Wyn Jones, Sion Roberts, *Capel Coch*; Guto Sion Griffiths, Iwan Huw Harper, Iolo Rhys Hughes, *Cysegr*.

Dan 11 oed: Tudur Williams, *Deiniolen*.

Dan 12 oed: Gethin Wyn Griffiths, *Cysegr*.

Oedolion: Mrs Elizabeth Evans, Myfanwy Harper, Mrs Edwina Morris, Mrs Nora Parry a Mrs Nancy Williams, *Cysegr*; Marian Jones, *Deiniolen*.

Carai'r pwyllgor ddiolch i swyddogion ac aelodau Capel Cefnywaun, Deiniolen, am eu cymorth i drefnu'r gymanfa ac i bawb â'i cefnogodd. Diolch arbennig i Mrs Mererid Mair Williams am arwain y Gymanfa ac i Mrs Bethan Holding a Mr Gareth Jones am gyfeilio. Hefyd gwrthfawrogir cyfraniad y Parch John Pritchard fu'n llywyddu'r cyfarfodydd.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CYNGOR CYMUNED.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blyneddol Cyngor Cymuned Waunfawr yng Nghanolfan y Capel, Caeathro, ar 8 Mehefin. Ar ran y cyhoedd, cododd lfor Hughes nifer o faterion ynglŷn ag addasrwydd cerdded y llwybr cyhoeddus rhwng Caeathro a Phontrug. Etholwyd y Cyng Clive James fel Gadeirydd ar gyfer 2005/06.

Yn y cyfarfod cyffredinol wedyn, roedd siom nad oedd Cyngor Gwynedd wedi cadw at ei addewid i dorri'n ôl y gor-dyfiant ar risiau Pont yr Efail Bach yng nghanol y pentref. Gan fod fan 'Siwrnai Saff' wedi tynnu lluniau yng Nghaeathro, bydd y Clerc yn holi'r Heddlu ynglŷn â faint o bobl a oedd wedi'u dal yn goryrru trwy'r pentref a'u henwau er mwyn rhybuddio eraill rhag iddynt achosi damwain yn y pentref.

GEMAU'R CYMANWLAD.

Mae merch ifanc o Gaeathro, sef Hannah Hughes, wedi llwyddo unwaith eto yn y maes Judo.

A hithau ddim ond yn bymtheg oed llwyddodd i ennill Medal Efydd yn Gemau'r Gymanwlad yn ddiweddar. Roedd yn cystadlu yn erbyn merched llawer hŷn, rhai cyn hyned ag ugain oed.

Fe fu i Hannah guro merch o Canada, a oedd yn un o'r ffefrynau i guro'r gystadleuaeth, roedd hyn yn gamp ynddo'i hun.

Mae Hannah wedi cynrychioli Cymru a Phrydain sawl gwaith bellach, ac yn ogystal â bod yn bencampwraig Cymru a Phrydain yn ei thro, mae hi wedi cystadlu yn llwyddiannus dramor sawl tro hefyd.



Gobeithion hir dymor Hannah yw cystadlu yng Ngemau Olympaidd 2012 yn Llundain.

Mae Hannah hefyd yn aelod o garfan rygbi gogledd Cymru i ferched dan 17 oed, ac yn aelod o garfan pêl-rwyd Eryri.

LLEIDR DA. Yn y nofel newydd gan yr awdur lleol, Gareth Miles, Lleidr Da (Gwasg Carreg Gwalch, £7.95) pwy gynigiodd 'tŷ pedair llofft hefo hanner acer o dir yng Nghaeathro' i bwy?

PEN-BLWYDD. Yn ddiweddar

dathlodd Beti Roberts ei phen-blwydd yn 80 oed. Ar hyn o bryd mae hi'n trigo ng Ngherrig yr Afon, Y Felinheli.

EISTEDDFOD YR URDD.

Llongyfarchiadau i Megan Lloyd, Tyddyn Cae, ar gael y wobwr gyntaf yng nghystadleuaeth Technoleg a Dylunio dan 11 oed.

Roedd hi hefyd yn un o bedair cynrychiolydd o Gaeathro yng Nghôr Gerdd Dant o dan 11 oed Ysgol Bontnewydd, gyda Gwen Thomas, Dolgynydd Uchaf; Lowri Ceiriog, Erw Wen a Bethanie Jones, Rhosgwalia.

Llongyfarchiadau iddynt ar gyrraedd Rhuthun a llwyddo ar y llwyfan mawr.

TEULU NEWYDD. Croeso i Meical, Catrin a'u plentyn, Guto, i'w cartref newydd yng Nghaeathro – 10 Bryn y Gof.

YSGOL SUL. Bydd digwyddiadau arbennig i ddisgyblion yr Ysgol Sul cyn diweddau am yr haf.

Ar 9 Gorffennaf bydd taith nodedig i godi arian ar gyfer cefnogi Canolfan y Capel, yn cychwyn am 11.00 y bore.

Wedyn, ar ddydd Sul, 16 Gorffennaf, bydd yr Ysgol Sul yn cefnogi Gŵyl Ysgolion Sul Arfon. Gofynnir i bob teulu gwrdd yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, am 2.00 o'r gloch y pŵn.

Bydd y tymor yn dod i ben hefo Gwasanaeth Teulu am 11.00 y bore ar 23 Gorffennaf, dan arweiniad Nia ac Alwyn Jones.

GWASANAETHAU'R CAPEL.

Disgwylir y gwasanaethau canlynol ar y Sul yn ystod mis Gorffennaf.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen, Bodafon
Ceunant (650799)

SWYDD NEWYDD.

Llongyfarchiadau i Emyr Williams, Pant Hyfryd, Ceunant, ar ei benodiad yn ddiweddar fel Pennaeth Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch. Pob dymuniad da i ti yn y swydd newydd ym mis Medi.

2: 11.00: Ysgol Sul;
9: 2.00: Parch Cledwyn Griffith;
3.00: Pwyllgor Meddiannau;
23: 11.00 Nia ac Alwyn Jones.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Mehefin oedd:

£40: (22) Leti Williams, 'Refail'; £25: (29) Hywel Evans, Rhyddallt Ganol; £15: (51) Dafydd Roberts, 5 Brynteg; £5: (02) Peter Evison, Cae Hopcyn.

MIRI HAF. Bydd Miri Haf eleni yn cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn, 15 Gorffennaf, yn cychwyn am 2.00 y pŵn. Yn ogystal â rاسus, cystadlaethau gwisg ffansi i bob oed, stondinau, rafflau, cantin bwyd, castell gwynt, cystadlaethau golff a sgorio goliau, bydd y prynhawn yn cloi efo perfformiad byw gan grŵp roc y pentref, 'Rebellion'. Prynhawn o hwyl ar gyfer y teulu i gyd.

YMDDEOLIAD. Llongyfarchiadau i Vera Hughes, Penannt, ar ei hymddeoliad yn dilyn ei phen-blwydd yn 60 oed.

Trip W.I. Llanrug 1935

Y 'Mystery Trip' yn cyrraedd Caer efo bws D. M. Pritchard, Sgwâr, Llanrug



(Yn sefyll ar stepen y bws, chwith i'r dde): Mrs Storer, Bodwyn; Mrs Butler, Tan-y-coed; ?.

(Yn sefyll): Mrs Annie C. Williams; Miss Laura Hughes, Bryn Moelyn; Dreifar ?; Mrs Sally Thomas, Min-y-rhos; Mrs Roberts, Ffrwd Goch, Brynrefail; Mary McKinnon, Plastirion; Jessie McKinnon, Plastirion; Mrs Elin Dora Evans, Gwynllys; ?; Miss Parry, Llys Dulas; ?; Mrs Owen, Llain Delyn; Mrs Annie Jones, Penrhos; Mrs Elizabeth Pritchard, Bryn Gwenallt; Mrs Elizabeth Catherine Pritchard, Bron Eryri; ?; Mrs William Jones, Tegfryn; Miss Williams, Ty'n Twll, Brynrefail; ?; Miss Megan Mair Jones,

Tyddyn Rhyddallt; Mrs Maggie Jones Bryn Elan; ?.

(Yn eistedd, yr ail res): Mrs Ellis a Rhiannon Ellis, Grewor; Mrs G. Hughes, Snowdon View; Mrs Hannah Jones, Bryncoch; ?; Mrs Roberts, Ty'n-y-ar-dd; Mrs Myfi Davies, Plastirion Terrac; ?; Mrs Maggie Roberts, Tan-y-coed.

(Rhes flaen): Miss Anne B. Griffith, London House; Mrs Katie Alice Owen, Egryn Villa; Gwilym ?; Mrs Gwen Ann Williams, Brynteg; Mrs Jennie May Jones, 1 Gorffwysfa.

Diolch i Megan Pritchard, 3 Hafan Elan, am anfon y llun ac i Sali Thomas, Min Rhos, Llanrug, am enwau'r merched aeth ar y trip.



Ar Ben Arall y Lein

Mis o dywydd ardderchog os am liw haul, ond da i ddim i 'sgotwrs. Peth diflas yw edrych ar ragolygon y tywydd ar y telcdu a gweld dim ond pwysedd uchel a rhagolygon am fwy o haul. Wcdyn rhan o'r drefn yw mynd at lan yr afon pob gyda'r nos, gan obeithio gweld rhyw newid ond, wrth gwrs, toes dim ond y lefel yn dal i ddisgyn.

Gyda lefel isel mae cynnwys ocsigen y dŵr hefyd yn isel, sy'n achosi problemau gyda chynnal y pysgod yn y ddeorfa. Mae yno rai cannoedd o frithyll yr enfys ac oddeutu 3,000 o frithyll brown. Ar rai o'r dyddiau roedd tymheredd y dŵr yn y tanciau yn agosau at 22°C. Gyda gwaith eithriadol mae gwirfoddolwyr y ddeorfa wedi gallu cadw'r stoc heb unrhyw golled – gwyrtiol pan mae'r arbenigwyr i gyd yn awgrymu mai 16°C yw'r uchaf y gall brithyll ei ddiodeff heb i broblemau godi eu pennau. Daliwch ati hogiau, bydd yn rhaid credu, at y flwyddyn nesaf, i gael peiriant oeri ac ailgylchu'r dŵr, mi wnaiff hyn hwyluso'r gwaith a hefyd bydd yn bosib ailgydio yn y cynllun magu torgoch, a fu mor llwyddiannus rhyw bedair blynedd yn ôl. Be ddaeth â hynny i ben oedd tymheredd y dŵr yn ystod tri mis yr haf.

Yr unig le mae sgota wedi bod yn llwyddiannus yw Llyn Dywarchen. Wrth gwrs, mae hyn oherwydd ein bod yn stocio ar y foment ddwy waith y mis. Mae'r 'sgota mor dda cefais rhyw si, (ydi hi'n wir tybed?) fod 'sgotwr brwd o Lanberis wedi llithro'n slei i'r llyn at y pysg; anodd gennyf goelio hefyd!!

Cofiwch hefyd y bydd diwrnod agored – neu fel rydym yn ei alw – 'Diwrnod Hyfforddi a Chyflwyniad i Bysgota', rhwng 11 y bore a 4 y prynhawn ar Sadwrn 29 Gorffennaf. Bydd offer ar gael i'w fenthycu a bydd digon o hyfforddwyr y gymdeithas wrth law. Mae awr

gyntaf y diwrnod yn gyfyngedig i ferched yn unig. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar safle we y clwb: www.gwynedd.gov.uk/sg hefyd cwch ar y linc Sciont Gwyrfa'i Llyfni i gael golwg ar cin map 'interactive' newydd.

Cafwyd newydd ardderchog yn ddiweddar i'r perwyl fod ein cais am gymorth i wneud cynlluniau manwl o'r ganolfan yn Crawia wedi ei ganiatáu. Diolch i Gyngor Gwynedd am ei ffydd i'n cefnogi yn y fenter yma, pan mae rhai fel Cyngor Chwaraeon Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn gwneud digon o swm eisiau datblygu mwy o ddiddordeb mewn digwyddiadau awyr agored – digon o swm, wrth gwrs, ond y llafur a'r arian i ddod gan eraill. O, mae'n ddrwg gennyf, yr hen focs sebon 'na eto!


Ar ein datblygiad mawr arall – sef Melin y Cim, cefais gip ar y lle heddiw, 22/6, ac mae bron yn barod – eisiau gosod y balconi (oedd i gyrraedd yn hwyrach yr un diwrnod), gosod slabiau yng nghefn yr adeilad a gwynebu'r maes parcio. Agoriad swyddogol tua mis Medi, gobeithio'n wir.

Beth am y 'sgota, rhaid cael tipyn o law neu fflat iawn fydd pethau, ond at ganol Gorffennaf os bydd tywydd sefydlog – anodd plesio rhai yn tydi – yna fe ddylai 'sgota'r torgoch ddechrau pigo i fyny. Mae John Beer, sef un o brif gyfranwyr y cylchgrawn *Trout & Salmon* yn ymweld yr amser yma i drïo ei lwc a sgwenu erthygl yr un amser. Dyna hysbysiad ardderchog i'r clwb ar fro yn gyffredinol.

Yn ogystal â hyn mae'r BBC ar ddechrau darlledu rhaglen newydd, *Ar y bluen* ac maent yn barod wedi bod yn y ddeorfa ac yn 'sgota ar Lyn Nantlle: dyna fydd cynnwys un o'r rhaglenni cyntaf.

Er gwybodaeth i'r fro, dyma ryw syniad o sut, efallai, y bydd Canolfan Carwia yn edrych.


HUW PRICE HUGHES



Cefnogwch ein Hysbysebwy

Briwsion Byd Natur

Datfydd Guto



OES 'NA WAHANIA'TH RHWNG WY AC WY?

Oes! siŵr iawn, mae 'na wahania'th sylweddol rhwng maint a'r lliwiau a berthyn i wya! Ar y 27ain o fis Chwefror y flwyddyn 2005 daeth Martin, mab Mistar a Musus D. Roberts, a brawd Linda, fferm Neuadd Glasgoed, Penisa'r waen, o hyd i wy dwbl mewn nyth o eiddo un o'r ieir.

Gyda'r blynyddoedd yn y Wasg ymddangosodd hanesion ynghylch wya' dwbl. Dyma un ohonynt: *Wy enfawr – Y mae ar fferm Mr. Wiliam Hughes, Cefn Uchaf, Llanddeiniolen, iâr wedi dodwy wy,...* yn mesur un ffordd saith modfedd a thri chwarter, (20 cm), a'r ffordd arall yn mesur pum modfedd a thri chwarter, (15½ cm.). *Pwysai dair owns a hanner.* A cheir yr hanes yn *Yr Herald Cymraeg* Mawrth 5ed, 1864 t.2 col.6. Coblyn o wy nobl onide? Tybed mai wy clagwydd ydoedd? Ai jôc oedd y cyfan? Jona oedd enw'r colofnydd gydag llaw!

Yn fwy rhyfeddol fyth yn *Yr Herald Cymraeg* Medi 23ain, 1863 t.2 col.6 d'wedir bod cyw iâr gyda phedwar troed wedi ei ddeor o wy iâr perthynol i Mr. Owen Roberts, town crier, Pen'r allt Ogleddol, Caernarfon, ddydd Gwener wythnos diwethaf ac yna'r frawdtag tu hwnt o drist ar un ystyr, sef deallir fod y perchennog yn bwriadu ei stwffio. Twt! Twt! 'Ffor shêm!' clywaf y rhai mwya' addfwyn ohonoch yn ei dd'cud!

Ond gadewch inni ddychwelyd at y melynwy a'r gwynnwy. Y mae fy nghyfaill o Lanuwchllyn, sef Mcl R. Williams yn ei lyfr *Astudio Adar*, 1986 t.36, yn nodi fel a ganlyn: Mae'n ymddangos mai cuddliw yw'r lliw a'r patrymau sydd ar wyau. Er hynny, gwyn yw wyau

nifer o adar. Er enghraifft, gwyn neu las golau yw wyau'r rhan fwyaf o'r adar sy'n nythu merwn tyllau, fel y Dylluan, Glas y Dorlan, Cnocell y Coed, Gwennol Ddu a Gwennol y Bondo. Gan eu bod wedi eu cuddio mor dda nid oes arnynt angen cuddliw, mae'n debyg. Hefyd, mae'n sicr o fod yn haws o'u gweld yn nhywyllwch y nyth... Fel rheol fe geir wyau lliw glas mewn lleoedd cysgodol fel gwrychoedd, ac wyau brown felyn mewn mannau agored. Mae maint y patrymau yn dibynnu pa un ai dodwy merwn man agored neu mewn nyth wedi ei guddio'n dda a wna'r rhywogaeth fel arfer.

Y mae cyfaill arall imi, sef y diweddar Ted Breeze Jones, yn datgelu, fel a ganlyn, yn ei lyfr *Seiat yr Adar*, 1981 t.32: mewn gwirionedd, dim ond amrywiad ar ddau liw ellir ei gael, sef brownogoch a gwyrddlas, a'r rhain yn gyfrifol am yr holl amrywiadau, a welir ar wyau adar. Ond mae lliwiau eraill, mwy sylfaenol, sy'n cael eu gosod yn y plisgyn pan fo'n cael ei ffurfio; lliw sy'n amrywio o wyn i ddu. Un pwrpas i liw ar wyau llawer o adar ydy gweithredu fel cuddliw ond mae pwrpas lliwiau eraill wedi diflannu ymhell yn ôl yng nghwrs datblygiad drwy filynau o flynyddoedd. Os yw'n anodd dehongli lliwiau wyau adar gwylltion, mae'n ganmil mwy anodd esbonio lliwiau wyau ieir; adar sydd wedi eu magu a'u croesi yn arbennig i gynhyrchu wyau. Deallais mai'r beil sy'n cynhyrchu glesni, a bod cochni yn tarddu o'r gwaed, ond pam mae'r iâr yn dodwy'r naill ffordd a'r llall?

A pham wya' dwbl meddach? Na! 'dydym heb w'bod y cyfan o bell ffor! Ond mi wnaif orffan hefo rh'wbath mwy rhyfeddol eto, sef tystiola'th llawn mor ddiddorol, am gywion cyn iddynt ddeor o'r wya'. Wyddoch chi cu bod, yn eu nyth brau o blisgyn, eisoes yn symud cu penna', yn agor a chau eu piga' ac yn pigo?

UN FUNUD FACH

'DAL YMA'

Dwi ddim am i neb fy nghamddeall i na chredu fy mod i'n feirniadol o ymdrechion pobl eraill. Mae'r byrddau arddangos ncwydd sy'n nodi Llwybr Treftadaeth Llanberis yn werth eu gweld. Maen nhw'n ddeniadol, ac yn ddiddorol i ni'r bobl leol a'r ymwelwyr. Nid gwaith hawdd yw crynhoi cin ddoc a'n heddiw ar hanner dwsin o fyrddau o'r fath, ond rhaid canmol pwy bynnag a wnaeth y gwaith da.

Trafod yr eglwysi a'r capeli y mae'r bwrdd a welir ger Gwesty'r Dolbadarn. Mae'n sôn am genhadaeth y seintiau cynnar a roes eu henwau i eglwysi'r dyffryn ac am ddiwylliant Cristnogol y capeli. 'Roedd y diwylliant Cymreig yn cael ei ddathlu yn y capeli. Yno cynhelid cymanfaoedd canu, cymdeithasau cerddorol a llenyddol gyda gwahoddedigion, dosbarthiadau darllen a grwpiau astudiaethau Beiblaidd; a byddai'r plant yn mynychu'r Ysgol Sul.' Ond trueni iddo roi'r argraff mai pethau sy'n perthyn yn unig i orffennol pell y pentre yw capel ac eglwys. Ni ellir eu cyfyngu i'r llyfrau hanes. Mae nhw'n dal yma!

Mae'r dystiolaeth Gristnogol yn parhau. Trwy ras, mae yma bobl sy'n dal i addoli Duw a chredu'r Beibl a chyhoeddi'r Efengyl. Ni ddiflannodd yr

oedfaon. Ni pheiddiodd yr Ysgolion Sul. Ni ddarfu'r cymanfaoedd a'r cymdeithasau llenyddol, na hyd yn oed y dosbarthiadau Beiblaidd! Yn eglwysi a chapeli'r fro ceir cwmnïoedd o bobl sy'n dal i arddel y Ffydd Gristnogol a fu mor ddylanwadol ym mywyd llawer o'r bobl a fu yma o'n blaen.

A wir i chi, bydd llawer o'r ymwelwyr sy'n dilyn y Llwybr Treftadaeth newydd yn gwneud yr un peth gartref yn eu capeli a'u heglwysi eu hunain. A bydd rhai ohonynt yn ymwybodol o hanes disglair y Ffydd yn ein gwlad ni. Trueni felly os cawn nhw'r argraff fod pobl y fro brydferth hon wedi rhoi'r Ffydd Gristnogol yn daclus mewn amgueddfa.

Ond, wrth gwrs, nid eiddo'r Llwybr Treftadaeth y cyfrifoldeb na'r gallu i dystio i fywyd ein heglwysi a'n capeli heddiw. Y rhai all wneud hynny yw pobl yr eglwysi a'r capeli eu hunain. Felly, chi sy'n caru'r Iesu, mynnwch dystio iddo a'i ddilyn fel y gwél pawb fod y Ffydd yn rym bywiol yn eich bywyd chi, ac ym mywyd y fro hon, o hyd. Dangoswch i eraill fod Efengyl Iesu Grist yn golygu popeth i chi.

Credwch. Tystiolaethwch. Addolwch. Gwasanaethwch. A byddwch hyderus y bydd y dystiolaeth Gristnogol yn dal yma pan fydd y byrddau arddangos - a hyd yn oed o bosibl ein capeli a'n heglwysi - wedi hen bydru a darfod amdanynt.

JOHN PRITCHARD

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

SNOWDONIA PARK WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: 650218

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac
ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.
24 awr y dydd

Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**

Symudol: **07778 127394**

HEFYD



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill

Peidiwch a gori ar stori
anfonwch hi i'r Eco



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei
drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn
cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076**
i wneud apwyntiad

neu
ysgrifennwch atynt:
Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu
e-bost: **williamsgw@parliament.uk**

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

DIOLCH. Dymuna Sioned a Paul, Towyn, Abergele, ddiolch o galon i bawb am y caredigrwydd a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth Nel Anwen, wyres bach i Pat a John Arfon, a nith i Robin.

DIOLCH. Dymuna Collwyn a Rita, Elan, Tan y Cae, ddiolch o galon i'r teulu, cyfeillion a chymdogion am eu dymuniadau da ar achlysur eu dathliad diweddar.

MERCHED Y WAWR. Daeth gweithgareddau'r tymor i ben nos Fercher, 14 Mehefin, gydag ymweliad y gangen â Pharc Glasfryn, ger Pwllheli. Croesawyd pawb i'r cyfarfod olaf gan y llywydd, Sian Davies. Llongyfarchwyd Rita a Collwyn ar ddathlu eu priodas ruddem yn ddiweddar. Llongyfarchwyd Siôn a Manon Elwyn ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Môn, a phlant a phobl ifainc y pentref fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd. Da oedd gweld Lynnwen Morris wedi gwella ar ôl damwain yn ddiweddar.

Cyn trosglwyddo'r awenau i'r swyddogion newydd diolchodd y llywydd i'r ysgrifennydd, y trysorydd a'r pwyllgor am eu gwaith yn ystod y flwyddyn, hefyd i'r cynrychiolwyr ar y pwyllgor er budd yr anabl am eu cyfraniad hwythau ac i'r aelodau am eu ffyddlondeb. Wrth edrych ymlaen i groesawu pawb ar 13 Medi, diolchodd Anne Elis, y llywydd newydd, i Sian Davies a'r holl bwyllgor am flwyddyn llwyddiannus. Enillwyr y raffl oedd Nora Parry, Deilwen Hughes a Gwyneth Jones.

Wedi mwynhau pryd o fwyd, aeth nifer o'r aelodau i ffurfio timau ar gyfer gêm o fowlio deg, tra'r oedd eraill yn cefnogi neu'n mwynhau sgwrs. Roedd yn amlwg oddi wrth y chwerthin a'r miri bod y chwaraewyr yn cael hwyl. Cafwyd noson ddifyr i gloi gweithgareddau'r gangen am y tymor.

CLWB BRO BETHEL. Cafodd yr aelodau, ynghyd â nifer o gyfeillion, ddiwrnod ardderchog yn ddiweddar pan gynhaliwyd trip i ddiweddu gweithgareddau'r tymor am eleni. Aeth y bws drwy Nant Ffrancon a draw am Fetws-y-coed ac yna dros y *Denbigh Moors* i ganolfan siopa Tweedmill, ger

Llanelwy, lle cafodd pawb gyfle i gael cinio ac edrych o gwmpas. Ymlaen wedyn i Landudno a threulio gweddill yr amser yn crwydro'r strydoedd cyn troi am adref. Elizabeth Evans a Megan Humphreys oedd wedi gwneud yr holl drefniadau, gan sicrhau fod pawb yn ennill gwobr yn y raffl! Diolchwyd yn gynnes iawn iddynt gan Jenkin Griffiths.

Clwb Bro Bethel

Lle'r sgwrs ddiiddan a'r banad – yw y clwb

I rai clên, a'u bwriad

Yw rhoi cwmniâeth yn rhad,

Eu prawf yw gwerth y profiad.

DIOLCH. Dymuna Megan Humphreys ac Elizabeth Evans, trefnwyr y 'Daith Ddirgel' ar 7 Mehefin ddiolch yn fawr i KMP Coaches am gynllunio'r daith. ac i Richard, y gyrrwr gofalus, fu'n gofalu amdanom trwy'r dydd.

Diolch i'r aelodau, ffrindiau a busnesau lleol am eu cyfraniadau hael at y raffl ar y bws. Buom yn lwcus o gael tywydd ardderchog hefyd.

Dymuniadau gorau i bawb o'r aelodau sydd wedi bod yn dathlu achlysuron arbennig yn ystod y tymor ac anfonwn ein cofion at bawb o'r cleifion – brysiwch wella.

Gwyneth Williams ac Eunice Roberts fydd y trefnwyr y tymor nesaf.

ADRAN YR URDD. Aeth sawl aelod i gystadlu yn yr Eisteddfod yn Rhuthun ar ddiwedd mis Mai. Gobeithio i chwi i gyd fwynhau. Llongyfarchiadau i'r grŵp pop, 'Wil ac Amp Huw', a ddaeth yn gyntaf dan 12 oed. Mae'n siŵr y byddwn yn clywed mwy amdanoch yn y dyfodol. Daliwch ati.

Cafwyd noson o fabolgampau ar Gae Coed Bolyn ar 7 Mehefin. Roedd yn gyfle i ddewis unigolion i fynd i gystadlu ym mabolgampau'r Urdd ar nos Lun, 19 Mehefin. Pob lwc i'r holl blant fydd yn cystadlu yno.

Bydd 14 o blant yn mynd i dreulio penwythnos yng Ngwersyll yr Urdd Glanllyn ar ddiwedd mis Mehefin. Diolch i'r rhieni sydd yn mynd i edrych ar eu hól.

UWCH ADRAN YR URDD.

Llongyfarchiadau mawr i'r grŵp dawnsio gwerin dan 15 oed ddaeth yn ail yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac i Danielle



Tim pêl-rwyd genethod Blwyddyn 9 a 10 o Uwch Adran Bethel fu'n llwyddiannus mewn cystadleuaeth genedlaethol yn y Bala yn ddiweddar. Hefyd bechgyn Blwyddyn 7 ac 8 a ddaeth yn ail drwy Gymru.



Kavanagh ddaeth yn drydydd am ddawnsio disgo dan 15 oed. Hefyd i'r grŵp pop 'Priplico', a ddaeth yn ail ac i Sion Elwyn a ddaeth yn gyntaf am gyfansoddi cerddoriaeth. Roedd sawl un o'r aelodau a'r cyn-aelodau wedi bod yn llwyddiannus hefo Ysgol Brynrefail. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

Pob lwc i'r aelodau fydd yn cystadlu ym mabolgampau'r Urdd ar ddiwedd y mis.

CYMORTH CRISTNOGOL. Yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol casglwyd £746.26 ym Methel a Llandeiniolen. Y cyfanswm uchaf erioed! Diolch i bawb am eu cyfraniad hael ac i'r casglwyr am fynd o dŷ i dŷ.

CAPEL Y CYSEGR. Mewn oedfa arbennig ar fore Sul, 25 Mehefin, cyflwynwyd diolch arbennig yr aelodau i'r Gweinidog, y Parch Dafydd Hughes, am ei wasanaeth diflino yn ystod ei gyfnod yn weinidog ar yr eglwys. Cyflwynwyd rhodd gan yr Ysgol Sul i Mr Hughes a chyflwynwyd tysteb ar ran dwy eglwys yr Ofalaeth, sef Y Cysegr a Chapel y Rhos, Llanrug. Dymunwyd yn dda i Mr Hughes ar ei ymddeoliad.

TRIP YR YSGOL SUL. Mae trefniadau trip Ysgol Sul y Cysegr eleni yn wahanol i'r arfer. Trefnwyd i fynd ar y trên o Gaernarfon i Ryd Ddu ac yn ôl brynhawn Sul, 9 Gorffennaf. Dylid cyflwyno enwau i Mr Geraint Elis cyn 2 Gorffennaf.

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul



Quality Hotel Llanberis

(Gwesty'r Fictoria gynt)

– rhan o CHOICE HOTELS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (01286) 870253

Byddwch yn llawer
gwell allan hefo Ni!

AUDI	SEAT	PORSCHE	VOLKSWAGEN
SKODA	BMW	PEUGEOT	FIAT
Ceir Benthg AM DDIM Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD (01286) 673559 www.a-v-w.co.uk			
Car Service			
VOLVO	MERCEDES	SAAB	

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar y 6ed o Fehefin. Dymuna'r Cyngor longyfarch yr holl gystadleuwyr lleol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar eu llwyddiant. Cyflwynwyd y weddi agoriadol gan Richard Ll. Jones.

Derbyniwyd cofnodion Mai
Ychwanegodd Huw P. Hughes mai Mr Aled Evans yw'r swyddog yng Ngwynedd sy'n ymwneud â thair fforddiadwy a gallai'r cyhoedd gysyllu ag ef.

Materion o'r Cofnodion
Darllenwyd llythyr Eleri Llwyd, Llanuwchllyn, yn cynnig cyfraniad ariannol y teulu at gofeb ei thad. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu i ddiolch iddynt am eu caredigrwydd.

Atebion Gwynedd

- (1) Manlyu ar eu trefn i leihau'r gwastraff 'tipio slei bach' a wneir yn Rhiwlas.
- (2) Nid yw'r goleuadau cyhoeddus 'solar' yn llwyddiant hyd yn hyn.
- (3) Amcangyfrif o £3,400 am olau ychwanegol ger Bryn Madog Farmhouse.
- (4) Nid yw'r canghennau yn amgylchu'r lamp ger mynedfa Cae Coch.
- (5) Gwneir trefniadau gyda Chwmni Claytons i ailosod mainc Rhiwlas ar slab goncridd newydd.
- (6) Gwynne Jones, Pennaeth Gwasanaeth Ysgolion, yn gwrthod y gwahoddiad i fynychu cyfarfod y Cyngor i drafod 'Trefniadaeth Ysgolion'.

Penderfynwyd peidio archebu'r golau am £3,400 a gofyn i'r Adran Briffyrdd anfon gwys i'r tirlfeddianwyr dorri'r coed ar hyd y ffordd.

Cyfeiriodd Phylis Ellis at ateb blaenorol Gwynedd ynglŷn â golau ger Cae Hywel, a phenderfynwyd gofyn am amcangyfrif y gost o golofn oleuo yno a thrydan o'r gwasanaeth agosaf.

Cyfeiriodd Aled Green at yr angen am gyfyngu cyflymdra trafnidiaeth ar y ffordd sy wedi ei chodi i ddosbarth 'A' heibio i Frynrefail. Penderfynwyd gofyn am gyfyngiad o 40 m.y.a. o Stâd Minffordd i lawr.

Dyweddodd Hefin Williams bod angen clirio a thwtio lle bu cyfarpar y contractwyr o flaen y tai Cyngor yn Rhiwlas. Mae pilar/blwch trydan/ffôn yno hefyd angen ei symyd - hysbysu Gwynedd.

Derbyniwyd ateb Adran Cynllunio Gwynedd ynglŷn â Cae Rhedyn, Clwt y Bont (crynodeb):

• Nid oedd angen caniatâd i dorri'r goeden.

- Rhaid i'r perchennog arwyddo Cytundeb i sicrhau na fydd yr anecs yn cael ei werthu fel tŷ ar wahân, ac mai dim ond at ddefnydd sy'n atodol i'r eiddo ei hun y defnyddir yr anecs.
- Bydd rhaid i'r tanc septic presennol gydymffurfio â gofynion Adran Rheoliadau Adeiladu'r Cyngor.
- Nid yw'n ofynnol i baratoi man parcio ychwanegol.
- Mater i'r perchnogion tir yw'r drws patio sy'n wynebu'r cae.

Gohebiaethau eraill

Rhaglen waith Gwynedd - adeiladu llwybr troed newydd o Gwm y Glo i Frynrefail.

Cynnig Alun Ffred Jones AC i fynychu cyfarfod y Cyngor, penderfynwyd rhoi dewis iddo ddod i gyfarfod Gorffennaf neu Fedi.

First Hydro. Yn wahanol i'r bwriad a amlygwyd rai misoedd yn ôl, ni fydd angen codi uchder Llyn Peris, ym Marchlyn yn unig y bydd gwelliannau. Parheir y cyfnod ymgynghori tan ddiwedd yr haf.

Derbyniwyd dogfen swmpus ar 'Trefniadau Etholiadol yng Nghymru' oddi wrth y Cynulliad.

Gwnaeth Aled Green ddau bwynt:

- Mae dwyn wedi ailddechrau yn yr ardal.
- Cae chwarae Penisa'rwaun: angen torri gwair y tu allan i'r ffens hefyd, bu bron i blentyn gael niwed yno oherwydd y tyfiant uchel - cwyn i Wynedd.

Cofeb Huw Lloyd Edwards

Nid oedd perchnogion y Siop Gron ar gael i drafod trefniadau manwl, felly penderfynwyd gohirio penodi dyddiad am y tro.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Y Parc, Cerrig y Nyth, Marchlyn: newid defnydd adeilad allanol i uned wyliau. Gwrthwynebwyd y cais yma oherwydd nad oedd lle i barcio ceir yno. Mae ceir yn parcio yn y lle cyn pasio ar hyn o bryd.

Talsarnau, Penisa'rwaun: Estyniad a garej ddwbl.

3 Bron Helen, Clwt y Bont: defnyddio'r eiddo yn fusnes edrych ar ôl plant.

Ael y Bryn, Bryn'refail: estyniadau.

1 Cae Cerrig, Deiniolen: estyniad.

4 Pant Sardis, Dinorwig: estyniad.

26 Bro Egwys, Bethel: estyniadau.

Fferm Ty Mawr, Llanddeiniolen: addasu adeilad yn 12 uned wyliau.

Bryn Ffynnon, Fachwen: estyniadau.

Alun House, Saron: estyniad.

3 Mount Pleasant, Fachwen: addasu'r adeilad yn ôl i annedd ynghyd â newidiadau.

Bwthyn Isaf (Vulcan), Deiniolen: estyniad.

Cais a wrthodwyd gan Wynedd: Adeiladu byngalo ar lain o dir rhif 5499, Seion, Llanddeiniolen.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Rhiwen Ffarmhouse: estyniad.

13 Rhos Arthur, Penisa'rwaun: estyniad.

Gwynfryn, Bethel: estyniad.

Ceidio, Tre'r Gôf, Bethel: estyniad.

Y Fachell, Llanddeiniolen: tipio yng nghefn yr eiddo.

3 Pentre Helen, Deiniolen: porth a mynedfa i'r anabl.

2 Hafod Olau, Deiniolen: estyniad deulawr.

Datblygu cynllunio ym Methel. Ateb Gwynedd - (crynodeb) Credir ei bod yn gynamserol i ohirio pob datblygiad ychwanegol hyd nes bydd Dŵr Cymru yn gwella'r gwasanaeth carthffosiaeth.

Gwnaed cais i Wynedd gan drigolion i osod gât ger Helen Villa, Clwt y Bont, i arbed beiciau a sgrialfyrddau fynd o'r llwybr allan i'r ffordd fawr. Cyflwynwyd llythyr Gwynedd yn gofyn barn y Cyngor. Nid oedd gwrthwynebiad.

Llwybrau

Atebion Gwynedd:

112, Tarwylfa, Bethel: gât mochyn wedi ei rhoi i'r tirlfeddianwr i'w gosod.

60-65, Ynys Llecharian i Waen Pentir, Rhiwlas: gosodir arwyddion i ddangos llinell gywir y llwybrau.

61 a 64, ger Cae'r Llel, Rhiwlas: mae'r gwaith o drin ffosydd ar raglen waith y Cyngor.

61, Tros y Waen, rhoir gât i'r tirlfeddianwr i'w gosod yn lle'r gamfa ddiffygiol ger tros y Waun.

66, gwyrwyd y llwybr wrth adeiladu Stâd Bron y Waun, gwneir archwiliad ac ailsefydlu cyfeiriad y llwybr.

112, Seion i Tan'rallt: perchennog y tir i drin gordyfiant a thrwsio'r ffens ddiffygiol.

17, California Terrace i Frynrefail: tocio coed eithin ar y rhaglen waith.

45, Dinorwig: glanhair y stepiau a chau tyllau ar hyd y llwybr yn fuan.

Dyweddodd Huw P. Hughes bod gordyfiant ar lwybrau cyswllt Bethel. Penderfynwyd torri'r gwair arnynt cyn gynted a bo modd, a thoriad arall yn nes ymlaen: llwybr tu cefn i Gapel Cysegr, Tan Fynwent at y Siop a Tan Fynwent at Tan y Ffordd.

Hefyd gofyn i Wynedd gysylltu â'r tirlfeddianwyr lle mae gordyfiant o'u heiddo yn amharu ar y llwybrau.

Tyddyn Bach at Bonc, Y Felinheli: cwlfer a ffosydd wedi cau.

Dyweddodd Hefin Williams bod coed o'r gerddi yn culhau'r palmant yn rhan uchaf Bron Waen, Rhiwlas, bod angen torri gordyfiant ar hyd llwybr Carreg y Gath a bod y cŵn wedi ailymddangos. Hysbysu Gwynedd o hyn.

Materion eraill

Cyfeiriodd Hefin Williams at benderfyniad diweddaraf y Cyngor i atgyweirio cysgodfannau bws ar ôl y penderfyniad blaenorol i beidio gwario mwy arnynt oherwydd fandaliaeth. Gofynnwyd a oes cyfnod penodol yn y cyfansoddiad i ganiatau newid penderfyniad. Trafodir hyn eto.

Soniwyd am yr holl gysgodfannau newydd a osodir gan Wynedd mewn ardaloedd eraill a phenderfynwyd gofyn i Mr Dewi Rowlands beth yw'r sefyllfa.

Dyweddodd Aled Green bod Ariva wedi colli'r contract o wasanaeth bysiau lleol. Penderfynwyd gofyn i Mr Richard Jones beth fydd yn digwydd i'r gwasanaeth - Caernarfon, Llanrug, Penisa'rwaun a Deiniolen.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 4ydd o Orffennaf.

Cefnogwch ein hysbysebwy

ARVONIA

COACH TOURISM

cpt

- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grŵp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.




Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvoniaco.uk

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407



Rhai o aelodau Ysgol Sul Bosra a gymerodd ran yn Sbri'r Ysgol Sul yn Seiloh, Tregarth. Yn absennol o'r llun mae lanto, Catrin, Nia Eysyllt a Catrin Heledd.

YSGOL SUL BOSRA. Dymunir diolch i'r plant a gymerodd ran yn Sbri'r Ysgol Sul yn Seiloh, Tregarth, bnawn Sul, 18 Mehefin. Hwy oedd yn cymryd y rhan dechreuol a diolch iddynt am eu gwith clodwiw. Cafwyd hwyl yn canu caneuon bywiog gydag Edward Morus Jones. Cafodd y plant eu canmol am eu casgliad sylweddol o £151.60 tuag at y Genhadaeth Dramor. Mwynhawyd te bach yn Festri Seiloh a diolchir i ferched Seiloh am yr arlwy.

Pnawn Sul, 25 Mehefin, byddant wedi cymryd y rhan dechreuol yng Ngwasanaeth Cymdeithas y Beiblau ym Mosra. Wedi'r holl waith caled maent yn haeddu Trip.

TRIP. Bydd y trip eleni yn mynd i Sw Caer / neu Siopa, ar Sadwrn, 8 Gorffennaf, i gychwyn o groesffordd King am 8.30. Pris: Oedolion - £8 a £4 i blant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul. Enwau i Liz Jones (872421) os gwelwch yn dda. Bydd yr Ysgol Sul yn aildddechrau ar y SUL CYNTAF wedi i'r ysgol ailgychwyn ym mis Medi.

GWELLHAD. Feellir fod rhai wedi derbyn triniaethau yn Ysbyty Gwynedd ac anfonir ein cofion atoch. Ein cofion hefyd at Marilyn Humphreys, Caernarfon, gwaig Robat Humphreys, cyn-brifathro yr Ysgol Gymuned - hithau yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

PÊL BONWS LOTERI. Enillydd mis Ebrill oedd Liz Jones, 17 Bryn Tirion. Enillydd mia Mai oedd Carole Porter, 4 Bron y Waun.

Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch. **LLONGYFARCHIADAU.** Dymuna staff y Cartref Nyrsio a Gwenda, Bronwen, Myfanwy a Berwyn longyfarch Tom ac Olwen Williams, Maes y Garnedd, Bethesda, ar achlysur eu Priodas Ddiamwnt yn ddiweddar. Mr Mr Williams yn dathlu ei ben-blwydd yn 99 mlwydd oed y mis hwn a bellach yng ngofal y Cartref Nyrsio. Pob dymuniad da i'r

ddau ohonoch.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Mai y mis diwethaf a'r enillwyr oedd:

Helen Owen, 7 Bryn Hyfryd; Mair Foulkes, 3 Bryn Hyfryd; Victor Jones, 11 Bryntirion.

Enillwyr mis Mehefin yw: Liz Jones, 17 Bryntirion; Nia Owen, Gors, Brynrefail; Sion Phillips, 7 Tai Arthur. Atgoffir aelodau'r Pwyllgor o werthiant Calendr 2006 - mae rota enwau'r gwerthwyr ar gefn y Calendr. Pob hwyl ar y gwerthu.

GENI. Llongyfarchiadau gwresog i Pat a Leslie Larsen, Llygad yr Haul, ar ddod yn nain a thaid eto, ganwyd mab bychan arall, Llŷr, i Nerys a Rheon a dymunir pob hapusrwydd i'r teulu bach yn eu cartef newydd yn Llanrug.

PROFEDIGAETH. Ar 15 Mehefin, yn annisgwyl ond yn dawel wedi brwydr ddewr, bu farw Eleanor Jones, Heather Bank, yn Ysbyty Gwynedd. Anfonir ein cydymdeimlad llwyraf â'i gŵr, Richard, a'i mab, Hughie a'r teulu oll. Bydd colled fawr ar ei hôl.

ASRHOLIADAU. Erbyn hyn bydd yr arholiadau wedi gorffen a bydd amser i chwi ymlacio - nes daw'r canlyniadau! Pob dymuniad da i bob un ohonoch i'r dyfodol.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD. Llongyfarchiadau i Anest Bryn ac Anest Eifion ar ddod yn drydydd gyda'u dawnio gwerin, a llongyfarchiadau i bawb o'r pentref fu'n rhan o gystadlaethau llwyfan Ysgol Brynrefail.

EGLWYS SANTES HELEN.

Dydd Gweddï a Rhodd: Dydd Sul, 2 Gorffennaf am 10.00:

Cymun Bendigaid Teuluol gyda'r pregethwr gwadd, y Gwir Barchedig Anthony Crockett, Esgob Bangor. Fe fydd aelodau'r Ysgol Sul yn cymryd rhan yn y gwasanaeth ac fe fydd lluniaeth ysgafn yn Neuadd yr Eglwys i ddilyn. Estynnir croeso

cynnes i bawb.

Wythnos Carnifal a Gweithgareddau.

Dyma drefniadau y Carnifal ar gyfer eleni:

Nos Lun, 10 Gorffennaf: 7.00pm

Bingo yn Neuadd yr Eglwys.

Nos Fawrth, 11 Gorff: 7.30pm

Gyrfa Chwist Arbennig yn Neuadd yr Eglwys.

Nos Fercher, 12 Gorff: 6.00pm

Mabolgampau ar gae yr Ysgol.

Nos Iau, 13 Gorff: 7.00pm

Disgo yn Neuadd yr Eglwys.

Nos Wener, 14 Gorff

Helfa Drysor i gychwyn o Neuadd yr Eglwys rhwng 6.00 a 6.45pm, a darfod mewn gwesty am bryd o fwyd.

Dydd Sadwrn, 15 Gorff: 2.00pm

Y Carnifal ar gae yr ysgol. Fe fydd yr Orymdaith yn cychwyn o Gartref yr Henoed am 1.30 o'r gloch. Bydd yno amryw o stondinau, yn cynnwys raffl, tombola, teisennau, gemau a chastel bownsio ayyb. Mae'r cystadlaethau yn agored i bawb. Bydd yno hefyd sêl Cist Car am £3 y car.

Nos Sul, 16 Gorff.

Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen, gydag eitemau gan blant yr Ysgol Gymuned a Chôr Eryri o Lanrug. Cymerir y rhan agoriadol gan y Parch Tegid Roberts. Arweinydd y Gân fydd Mr Arwel Jones a'r Organydd fydd Dr William Munro.

Estynnir croeso i bawb gymryd rhan yn yr holl weithgareddau a derbynir yn ddiolchgar unrhyw gymorth neu roddion tuag at y gweithgareddau gan aelodau y Pwyllgor.

CYDYMDEIMLIR yn ddwys gyda theulu y diweddar Mr H.K. Salisbury, gynt o 5 Llys-y-Gwynt, cyn warden yr Eglwys.

YR YSGOL GYMUNEDOL.

Llongyfarchiadau i Claire Donnelly ar ddod yn gyntaf yng nghystadleuaeth rhedeg ras fynydd i blant dan 12 oed. Hefyd enillodd gwpan arall i'r ferch arbennig yn y cystadlaethau. Da iawn ti!

TWRNAMENT TENNIS. Cafodd y

disgyblion gyfle i gystadlu yn nhwrnament tennis yn y ganolfan dennis yng Nghaernarfon. Llongyfarchiadau i'r rhai ddaeth yn fuddugol.

CLWB PLANT 'HWYL A SBRI'.

Mae'r Clwb Plant unwaith eto wedi cael argraffu eu gwaith yn y llyfryn 'Me and My Family' a fydd yn cael ei gyhoeddi 31 Awst eleni. Crëwyd y gwaith yn y Clwb dan oruchwyliath Rhian White a Diane Jones. Diolch iddynt am eu gwaith caled! Cofiwch gofrestru gyda'r clwb os bwriadwch i'ch plentyn ymuno.

BLAS AR YSGOL BRYNREFAIL. Roedd hi'n ddiwrnod cyffrous a diddorol i flwyddyn chwech yn Ysgol Brynrefail. Yn y bore cawsom gofrestru a dysgu rheolau'r ysgol i'n helpu pan fyddem yn dod yno ym mis Medi! Wedyn cawsom brawf darllen, oedd efallai braidd yn ddiflas! Ar ein hymweliad i'r ysgol cawsom weld perfformiad gan Gwmni'r Frân Wen o'r enw 'Weji' yn ysgol Gynradd Llanrug. Roeddem wedi cael mwynhad mawr o'r perfformiad gan Gwmni'r Frân Wen, roedd yn werth ei weld. Wedyn cawsom Fathemateg gyda Mr Henryd Jones. Ar ôl y Mathemateg cawsom lond ein boliau o fwyd blasus Brynrefail. Ar ôl cael llond ein boliau cawsom wers Saesneg gyda Miss Maynard, pennaeth Saesneg blwyddyn saith. Yn dilyn cawsom wers Gymraeg gyda Miss Gwenno Evans. Roedd y diwrnod yn llawn hwyl a hapusrwydd, a phawb wedi blino'n lân erbyn diwedd y dydd.

CATRIN AC ELLIW

Y CYNGOR YSGOL. Erbyn hyn rydym wedi cael sawl cyfarfod. Yn dilyn ein cyfarfodydd ein prif flaenoriaethau am weddill y tymor yw codi elw y siop ffrwythau a chael mwy o adnoddau ar gyfer gemau buarth, gôls bach newydd i'w roi ar y buarth concrid a netau i'w rhoi ar y gôls ar y gwair.

Diolch

GLESNI ANGHARAD JONES
Cadeirydd y Cyngor



Tom ac Olwen Williams yn dathlu Priodas Ddiamwnt.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partion, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn walïau a llorïau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805



O'r Cyngor

Dyna ni, blwyddyn arall heibio, ac mae'n bleser unwaith eto cael adrodd ar sut mae pethau'n symud ymlaen ar wella, tacluso amgylchedd ac awyrgylch yr etholaeth. Mae'r broblem y cyfeiriais ati yn fy adroddiad bron i flwyddyn yn ôl, sef gorlifo dŵr a charthffosiaeth yn dal i amlygu ei hun fwy fwy mewn nifer o leoliadau ym mhentref Bethel. Rwyf wedi bod yn trafod y mater yma gyda'r Cyngor ac Asiantaeth yr Amgylchedd ers Rhagfyr 2004, ac er fod cryn waith wedi ei wneud i fapio hen system ffosydd draenio'r pentref, hyd yn hyn does dim wedi ei wneud i ddod â hwy yn ôl i'w pwrpas gwreiddiol, a thra bod hyn yn parhau mae cartrefi yn dal i ddioddef y bygythiad o gael un ai dŵr neu garthffosiaeth lygru eu haelwydydd.

Mae hon yn broblem y gellid ei llwyr osgoi drwy ychydig o fuddsoddiad yn system carthffosiaeth ac adeiladwaith draenio mewnol y pentref. Rwyf wedi clywed rhai mewn awdurdod yn dweud, gan fod carthffosiaeth o'r gwaith trin ym Mhenrhos yn awr yn cael ei bwmpio i system y Felinheli, ac wedyn i'r gwaith mawr yn Nhreborth, fod y broblem yn rhannol wedi ei datrys, ond mewn difri nid yw hyn wedi lleihau dim ar broblemau tu fewn i'r pentref; dim ond lleddfu peth o'r broblem sy'n llygru Doc Fictoria, Caernarfon, er budd pwy – nid ni fel pobl leol.

I drigolion Penrhos mae glaw trwm bob amser yn bryder, gan fod Afon Cadnant, sy'n llifo ger gwaelod eu gerddi, yn gallu ac wedi achosi difrod i nifer o eiddo. Ar ddechrau Ebrill cefais addewid gan Asiantaeth yr Amgylchedd bod cynllun ar fin ei gyhoeddi a fyddai'n gwneud i ffwrdd â'r broblem yma. Unwaith y caf fy nwylo ar y dogfennau byddaf yn dod â hwy o amgylch i chwi gael eu hastudio a lleisio eich barn.

Ar nodyn mwy positif mae cynllun wedi ei baratoi gan yr Uned Briffyrdd i uwchraddio peth ar y ffordd sy'n arwain o'r Gors Bach hyd at y Gelli Gyffwrdd. Mannau pasio a lledu tipyn yn unig sydd ar y cynllun, nid oes bwriad rhoi llwybr troed, ond fel rhan o'r cynllun mae gwelliannau i'w cario allan ar y gyffordd ger y Gors Bach ac hefyd bydd llwybr troed o'r pentref at Erw Bian am ei adeiladu. Mae hyn yn newydd ardderchog a thrwy hyn bydd cynllun lleihau cyflymdra traffig yn cael ei weithredu o'r Erw Bian drwy'r pentref.

Fel rhan o adolygu diogelwch o flaen ysgolion, mae Ysgol Bethel wedi ei nodi fel un o'r ysgolion sydd â risg uchel o ran

diogelwch oherwydd ei lleoliad ar ochr y B4366, sy'n ffordd eithriadol o brysur. Does dim rhaid ehangu ar hyn, gan ein bod i gyd yn ymwybodol o lefel y traffig cynyddol. Cawn weld yn ystod Mehefin eleni beth sy'n cael ei awgrymu gyda threfnu gwell cyfleusterau gollwng a chodi plant tu allan i'r adeilad.

Mae'r gwaith o ailwynebu ffyrdd mewnol y pentref bron wedi ei gwblhau, gyda phafin newydd yn Tan y Ffordd a Stad Eryri, strydoedd cefn Y Cremlyn, Saron, hyd at Tre'r Gof wedi eu hailwynebu a manau parcio wedi eu gosod ger Stad Rhos. Mi fuasai mwy o fannau tebyg yn ddelfrydol ond ar y funud yr unig leoliad mae hyn yn debyg o ddigwydd yw yng nghefn Bro Rhos, ond ymhen rhyw dair blynedd buaswn yn meddwl.

I'w gwblhau y flwyddyn yma mae pafin o'r B4366 at Tan y Cae, a hefyd ailwynebu'r ffordd yn yr un lleoliad. Yn ogystal rwy'n ceisio cael dyddiadau penodol pan fydd gwaith o'r B4366 at Tan y Buarth, Stadau Tan y Buarth, Y Ddol, Tan y Ffordd, Rhoslan a Eryri.

Tra yn sôn am faterion Priffyrdd mae pawb wedi dal sylw ar y gwaith sy'n mynd ymlaen i osod goleuadau newydd ar y ffordd drwy'r pentref, yn sgil hyn roedd yn rhaid gosod gwifrau trydan newydd tan y ddaear. Tydi'r gwaith o aildacluso o flaen Y Cremlyn, sef o rhif 17-22, ddim wedi bod yn rhyw llwyddiannus iawn. At hyn rwy'n disgwyl ateb ar beth fydd yn cael ei wneud i greu wyneb mwy addas i gerbydau barcio.

Mae hefyd cryn amser ers dod o amgylch i ymholi oherwydd sefyllfa'r traffig yn ardal Saron. Nid yw wedi bod yn bosib symud ymlaen gydag unrhyw gynllun, er fod yr holl drigolion wedi lleisio barn fod peth or-yrur ar hyd y strydoedd cul. Yn amlwg mae'r adran berthnasol o'r Cyngor yn gwybod yn well ac yn llwyr wrthod gwneud dim i leddfu hyn. Nid yw'r dystiolaeth yn cyfiawnhau'r angen i weithredu, medda nhw. Efallai y buasai aros yn Saron am ychydig ddyddiau yn newid eu meddwl.

Rhan o'r un cais oedd gwneud rhywbeth cyfatebol ar y ffordd rhwng Bro Eglwys a Bro Rhos. Eto nid oes dim llawer o symud yma, ond fod addewid i osod giât mochyn ar geg y llwybr sy'n arwain o Fro Eglwys i Fro Rhos. Rydym yn dal i ddisgwyl i'r gwaith gael ei ddechrau, ac er bod union yr un perygl yn bodoli fel mae'r llwybr yn dod allan i Stryd Bellaf, Saron, nid yw'n bosib gwneud dim yma chwaith. Perchenogaeth tir yw'r rheswm a gefais. 'Docs cisiau gras ar

adega!

Rhaid peidio bod yn rhy feirniadol, gan fod Stryd Ganol gyda'i chyffordd a Stryd Bellaf a Stryd Bach wedi eu marcio gyda llinellau melyn – rhybudd o ddim parcio – ond mae rhai yn dal i barcio yma, ac yn ei gwneud yn ofnadwy o anghysleus i'r gweddill o'r trigolion.

Mae'r gwaith o osod llinellau melyn ar y ddwy gyffordd yn arwain i'r B4366 wedi ei ddileu gan fod rhai cwynion yn erbyn y cynllun wedi eu derbyn.

Mae'r gwaith o uwchraddio'r Cremlyn wedi ei orffen a bydd y gwaith o osod ffenestri a gwres canolog ym Mro Rhos wedi ei gwblhau.

Mae rhai problemau yn parhau, y fwyaf yw'r teithiwy'r sydd wedi ymgartrefu yn hen Chwarel y Fachell. Er bod y Cyngor wedi bod yn defnyddio'r safle yma ers blynnyddoedd lawer, fel mae llawer yn cofio, nid oes tystiolaeth bendant pwy yw'r perchenogion. Sut mae hyn yn bod – wel mi adawaf hyn i

chwi weithio allan!!

Mae'r sefyllfa annerbyniol yma yn bodoli ers Tachwedd 2004, ond o'r ddiwedd rwyf wedi cael cadarnhad fod camau ar y gweill i ddod â'r sefyllfa i ben – gobeithio!

Dyna ddigon ar Ffyrdd ac ati, cawn droi nawr at yr ysgol ble mae'r estyniad bron â chael ei gwblhau. Bydd hyn yn rhoi gofod dysgu ardderchog ychwanegol ac mae'r staff a'r holl ddisgyblion wedi hir ddisgwyl amdano.

Gan fod llawer o'r gwaith arwynebol yn cael, neu ar gael ei raglennu i'w wneud, rwy'n teimlo y buasai cynnal cymhorthfa yn fisol ym Methel a Seion yn rhoi mwy o gyfle i gael trafod materion eraill. A oes galw am hyn? Gadewch imi wybod er mwyn cael trefnu lleoliadau ac amser. Rhowch ganiad ar (01248) 670 666 neu e-bost: huw.hughes@lineone.net.

HUW PRICE HUGHES
Cynghorydd Plaid Cymru
Ward Bethel a Seion ar
Gyngor Gwynedd

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

**WILLIAM SELWYN • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY**

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Carpedi, Llenni a Lloriau Pren**




**Silver
STAR**

GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanyllion am ein teithiau, ffoiniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

CROESAIR MEHEFIN



Ar Draws

1. Y mis i losgi bradwr.
3. Gallwch ddefnyddio'r cnofil yma gyda'ch cyfrifiadur.
6. Pryd bydd diwethaf y dydd.
8. Blodyn o Amsterdam.
9. Ffrâm cyfrif.
10. Cynhyrchwr moduron o America.
13. Cewch hwn wedi ei adael wrth eich drws yn ddyddiol.
16. Cewch fêl oddi wrth hwn.
17. Y diwrnod nesaf.
19. Byddwch angen hwn ar ôl ymolchi.
21. Un deilen o lyfr.
23. Mae'n bosib rhoi hylif neu nwy drwy hwn.
26. Lliw tîm pêl-droed Everton.
27. Aur du.
28. Gwyddoniaeth mewn cysylltiad â bywyd.
29. Nadolig, pen-blwydd neu cydymdeimlad.
32. Mae o'ch cwmplas ym mhobman, ond ni allwch ei weld!
34. Gweld rhywbeth cyn iddo ddigwydd.
36. Meithrinfa blanhigion ger Caernarfon (4,4).
37. Pen isa'r map.
38. Coch yw'r bwystfil yma yng Nghymru
40. Mae'n dod i'ch tŷ unwaith y flwyddyn (4,4).
41. Cartref i'r ci.
43. Llyn ar Ynys Môn.
44. Cewch lawer o rhain ar y to.
46. Bocs heddlu Dr Who.
48. Ffrwyth melyn gyda thro ynddo.
50. 12 o hen geiniogau.
51. Mae o dan eich traed drwy'r dydd.
52. Cartref gydag olwynion.
54. Anifail gyda chynffon droellog.
55. Lle i gadw arian neu oriadau.
56. Mae angen hwn i ymolchi'n iawn.
57. Mae gan y dref yma draeth i'r gorllewin ac i'r dwyrain.

I Lawr

2. Aderyn ifanc.
4. Gêm a pêl gyda panylion.
5. Ewch yma i wella.
7. Siarad.
11. Gallwch dyfu blodau mewn un o'r rhain.
12. Ffrind y garddwr
14. Buwch ifanc neu ffwl.
15. Mae hwn yn eich cadw'n gynnes.
18. Cymeriad cartwn, ----- Simpson.
19. Peidiwch â thaflu cerrig os yn byw mewn un o'r rhain.
20. Hen chwarel lechi ym Mlaenau Ffestiniog.
22. Castell yn Llanberis.
24. Ffurf o drafeilio gyda dwy olwyn.
25. Cewch hwn o'r fuwch.
30. Hwyl.
31. Llyn neu afon ar Ynys Môn
33. Pen ucha'r map.
35. Cewch un o'r rhain wrth alw 999.
37. Mae'r rhain yn tyfu o fesen.
39. Digonol
42. Mae rhai gwŷr yn poeni os ydynt yn colli hwn.
45. Ffrind.
47. Mae 12 arwydd ynddo.
48. Glanhau.
49. Lliw amgylcheddol.
52. Polo neu T.
53. Lliw tîm pêl-droed Lerpwl.

Cefais wyth cais drwy'r post mis yma ond yn anffodus, dim un yn gywir... Ceisiwch eto y mis yma a gyrrwch eich cais i mi eto: Tecwyn Evans, Tremallt, Waunfawr, Gwynedd, LL55 4YY gyda 'Croesair' ar y tu allan i'r amlen, erbyn Mehefin 12. Pob lwc!!
Tec

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

MAE CICIO PÊL YN OESOL

I bob un ohonom crys y profiad o droi darn o dir yn un o stadia mawr byd y campau, neu ddychmygu ein hunain yn un o'n harwyr. Yn oesol fe roddir cotiau neu ddarn o bric i greu pyst gôl. Nid oes terfynau i hyd a lled y maes, nag i amser y gêm. Tywyllwch a'r nesaf i sgorio fyddai'n cyfateb i'r 'chwib olaf'.

Dyna oedd fy argraffiadau pan dderbynais lythyr arbennig gan Bert Parry, Llanberis. Awdur y llythyr oedd Emrys Owen, yn wreiddiol o Stryd Bethesda, Llanberis (cychwyn da), ond ar ddiwedd ei yrfa fe fu'n brifathro mewn ysgol yn Solihull, Canolbarth Lloegr. Mae Emrys yn derbyn yr *Eco* yn rheolaidd ac ymateb y mae i'r llun o dim pêl-droed Halford Hill a ymddangosodd mewn ôl-rifyn. Dyfynaf y llythyr bron yn ei grynsyth. Y mae'n werth ei groniclo pe bai dim ond am y llu enwau caeau a nodir.

* * *

'Pwy ydyw, neu oedd, perchennog y llun gwerthfawr o dîm pêl-droed Halford Hill? Buaswn wrth fy modd yn cael hanner awr yn ei gwmni. Mi fuasai'r sgwrs yn mynd rhywbeth fel hyn, a minnau'n gwneud y rhan fwyaf o'r siarad! Ges di gêm ar gae Halford Hill? Mi ges i, ac mi roedd yn fraint a phlesar. Roedd o y cae gorau yn y pentref. Gwyneb da, dim cerrig, dim mwd na drain, a wal o'i gwmpas. Roedd hefyd le i newid o dan y tŷ. Mi fyddem ni'n rhedeg i'r cae fel ffwtbolars go iawn! Roeddech chi wedi cyrraedd y brig i gael gêm yno, neu dy fod yn ffrindia ag un o ffrindia Stanley.

Faint o'r caeau o'r adeg hynny alli di enwi? Fe dria i dy helpu. Dau gae Coed, Tŷ Du a Boncan Bil, cae Doctor, cae Pasmus, cae Cyril, cae Llainwen, cae Ucha - y cyfan ohonynt tu fewn i ffiniau'r pentref. Mi

roedd na ddau ym Mlaen Ddôl ac un yn ymyl Tŷ Ucha'r Ffordd. Un waith ges i wadd i fan honno. Doedd o ddim yn wastad iawn, ond roedd un o'r hogia wedi gwneud gôl o dri brigyn. Os oedd darn o dir ar gael, prun lleied ei faint, mi fydda na gêm.

Doedd hi ddim yn plen selin ym mhob un o'r caeau. Roedd Cae Tŷ Du braidd yn fwdlyd a gwlyb, achos rhan o gors ydoedd. Weithiau byddai caseg Wil Huws yn pori yno. Lawr wedyn i gae Pasmus neu Boncan Bil, lle buasai digon o le i sbectators, pe bai rheini'n bod!

Pwy oedd efo pêl? Y boi roedd pawb yn ffrindia' hefo fo! Un dwi'n gofio hefo ffwtbol ledar, ond ar ôl cael ei thrin droeon gyda sgidia hoelion mawr, drain ac ysgall, mi fyddai'r pwytha'n frau fel caws, a swigan goch yn mynnu gwthio allan. Lawr â hi at Guto crydd a hwnnw yn ei phwytho am ddim (*Cofiaf fy nhad, fel crydd pentref Llandegai yn cyflawni'r orchwyl yna droeon i ffwtbols yr ysgol. Gol*)

Mi roedd gan y strydoedd eu timau, a weithiau byddai tîm Wel Strit yn cael gest plears fel Walter a Berwyn o Goodman, oedd yn ffrindiau hefo Dennis.

Cyd-ddigwyddiad oedd bod llun tîm dan 11 Llanbêr yn cael dillad newydd yn ddi-gost iddynt, a gôl a rhwyd i'w llenwi. Mwynhewch eich hunain, hogia, a byddwch yn ddiolchgar i'r bobol sy'n rhoi eu hamser a'u doniau i'ch hyfforddi. Os cewch cyn gymaint o blesar ac a gafodd ein cenedlaeth ni, gwyn eich byd!

* * *

Diolch i Emrys am lythyr arbennig. Fel y dywedais droeon, dyma i mi yw un o wir hanfodion papur bro. Y mae profiadau pob un ohonom yn oesol, ac i'w trosglwyddo.



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris


**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



CHWARAEON



David Wyn Chapman.

AR LWYBRAU'R SAINT

'Un yn mynd ac un yn dod', yw'r hen goel. Mae hynny'n wir ynglŷn â chysylltiad yr ardal yma â thîm y Seintiau Newydd, neu'r hen T.N.S. Wedi gwasanaeth ffrwythlon a llwyddiannus mae Marc Lloyd Williams wedi ei ryddhau. Ar ddechrau'r tymor nesaf bydd DAVID WYN CHAPMAN o Ddeiniolen yn ymuno â'r clwb, wedi iddo dderbyn ysgoloriaeth dwy flynedd yn y clwb proffesiynol amser llawn.

Amser cyffrous fydd hwn, gan fod y clwb yn symud i stadiwm a chyfleusterau hyfforddi newydd yn ardal Croesoswallt.

Dechreuodd gyrfa David yn wyth oed pan gynhyrchiolodd dîm -9 Deiniolen. Enillodd y tlws am 'Chwaraewr mwyaf addawol', ac yna symud ymlaen i ennill y gynghrair -11 gyda Deiniolen, a chipio Tlws Eco'r Wyddfa. Braf nodi fod ennill yr hen dlws yma yn dal i olygu rhywbeth i ieuencid yr ardal.

Symudodd David wedyn i chwarae i'r feithrinfa lewyrchus yn ardal Bangor, sef Maes y Bryn. Yma cipiodd dlws ei oedran fel 'Chwaraewr y Flwyddyn', a Thlws y Rheolwr. Tra yn Maes y Bryn cafodd dreialon gyda'r ddau brif dîm ym Manceinion - City ac United.

Pan ddaeth clwb Maes y Bryn i ben, symudodd David i chwarae i dîm -15 Bethel, dan hyfforddiant Alwynne Jones. Ail yn y gynghrair y tro hwn ac ennill Cwpan Chwarae Teg.

Erbyn hyn mae David yn chwarae yn yr oedran -17. Wedi pum gêm gyda thîm Llanberis, cafodd gyfnod o 6 wythnos yn ymarfer gyda thîm Dinas Caer.

Yn anffodus, yn ystod y cyfnod yma torrodd *ligaments* yn ei ffer ac o'r herwydd cafodd ei ryddhau.

Yn ffodus iddo cafodd wahoddiad i glwb Crewe Alexander, clwb a record dda mewn meithrin ambell un aeth yn eu blaen i chwarae ar y lefel uchaf.

Rŵan mae David ar gychwyn ei gyfnod dan yr Ysgoloriaeth, wedi ei leoli yng nghlwb y Saint ac yn yr Amwythig.

Dymunwn yn dda i David, a gobeithio y caiff ei wobrwyo am ei ddyfalbarhad.

CYFLE'R IFANC

Dyna, mae'n amlwg, fydd polisi John Toshack a Gareth Jenkins yn y dyfodol agos.

Ym myd y bêl-droed, ymddengys fod cryn bwyslais yn cael ei roi, o'r diwedd, ar hyfforddiant a datblygiad y timau ieuencid cenedlaethol. Y bwriad yw cael rhediad naturiol trwy'r timau i'r tîm hŷn cenedlaethol. Dyma fydd prif waith Brian Flynn, fel yr hyfforddwr iau. Lledwyd y rhwyd i ddarganfod unrhyw chwaraewyr proffesiynol sydd â chymhwyster i gynhyrchioli Cymru.

Eisioes mae rhai o'r chwaraewyr ieuanc wedi cael cyfle yn y gemau 'cyfeillgar', ac yn dechrau cynefino â dull chwarae dewisiedig Toshack.

Tîm gweddol ddibrofiad aeth draw i herio tîm rygbi corfforol yr Ariannin. Synnodd nifer at agwedd heriol corfforol y

Cochion yn ystod y prawf cyntaf. Roedd gwefr arbennig yn amgylchynu'r gêm yma draw yn y Wladfa.

Nododd y gwybodusion agwedd a doniau Ian Evans, yr ail reng ieuanc o ranbarth y Gweilch. Dyma'r math o flaenwr rydym wedi cysylltu â Seland Newydd - athletaidd a chorfforol. Yn anffodus, mae agweddau o ddiffyg hunan-ddisgyblaeth yn amlygu ei chwarae hefyd. Ni all unrhyw dim rhyngwladol fforddio colli unrhyw chwaraewr i gerdyn melyn neu goch. Ysgol ddrud yw ysgol brofiad.

Siom arall yw gweld dawn James Hook yn eistedd ar fainc y Gweilch, tra mae tramorwyr yn ennill arian da ar drael ein doniau cynhenid.

Gobeithio bod yr ieuencid wedi dysgu gwersi yn y ddwy gamp, ac y gallwn fel cefnogwyr roddi hyder iddynt. Daw dydd y bydd mawr y rhai bychain.

MORGANNWG - AR STEPAN DRWS

Ers sawl blwyddyn bellach bu tîm criced Morgannwg yn ymweld â Bae Colwyn. Eleni, maent am fentro mwy i'r gorllewin. Byddant yn herio tîm cymysg Bangor/Bethesda ar faes criced Bangor yn Nhŷ Newydd, Llandegai. Chwaraeir y gêm ar DDYDD MAWRTH, AWST 1af.

Gêm 40 pelawd yr un fydd hi, yn dechrau am 2pm. Pris mynediad fydd £2 i oedolion a £1 i blant. Bydd unrhyw elw yn cael ei gyfrannu i goffrau blwyddyn tysteb Darren Thomas, y bowliwr lled-gyflym. Dyma gyfle felly i ieuencid yr ardal weld tîm Morgannwg ar eu stepan drws, ac am bris rhesymol iawn.

Dewch yn llw.

CYFRES RASUS NOS FAWRTH

Daeth y gyfres boblogaidd i ben yn Llanberis, gyda ras fer i fyny ac i lawr Moel Eilio. Roedd bron i gant a hanner o redwyr wedi cymryd rhan yn yr wyth ras, rhai ohonynt yn teithio o Feirionnydd a Bro Dysynni i'r de, ac eraill o Brestatyn i'r dwyrain.

Enillydd y gyfres oedd Alun Vaughan, Llanberis, gydag Arwel Lewis o Fethel yn ennill yr adran i ddynion dros 40 oed. Jayne Lloyd o Bontrug oedd enillydd adran y merched, a Maggie Oliver o Ddinorwig yn ennill yr adran i ferched dros 50 oed.

RHOSTIO AR Y CARNEDDAU

Yn ystod y tywydd poeth iawn cynhaliwyd Ras Carneddau; deuddeg milltir o redeg a gwaith dringo Carnedd Dafydd, Llywelyn, Yr Elen a'r Gyrn Wigau. Er mai rhedwr o Loegr enillodd, roedd y tywydd poeth wedi cael effaith ar yr amser, a oedd yn llawer arafach eleni. Daeth Gwynfor Owen o Lanberis yn drydydd yn y ras, ac yn gyntaf dros hanner cant oed. Rhedwyr lleol eraill a ddaeth yn agos i'r brig oedd Bryn Williams o Lanberis a Dyfed Thomas o Lanrug.

YMATEB

Diolch i Eirlys Pierce o Lanrug am ymateb i'r ymholiad ynglŷn â'r llun o dîm pêl-droed Cwm y Glo. Mae hi'n nodi mai ei thad, y diweddar Myrddin Williams, Penterfyn, Llanrug, yw'r chwaraewr cyntaf o'r chwith yn y rhes gefn. Pan dynnwyd y llun roedd ei thad yn dair ar hugain oed. Yn amlwg felly, nid tîm ieuencid sydd yma. A oedd y tîm felly yn chwarae mewn cynghrair benodol? Beth am fwy o ymateb.



CODI'R CWPAN

Aeth tîm -13 Bethel draw i'r Oval i herio Dyffryn Nantlle yn rownd derfynol cwpan y gynghrair. Cafwyd gêm o safon uchel iawn, gyda bechgyn Bethel yn ennill o 3-1. Y sgoriwyd oedd Steffan Bullock, gyda gôl unigol

wych, a dwy gan Gruffydd John.

Dyma'r tro cyntaf i Fethel gipio'r gwpan, ac roedd eu rheolwr, Andrew Williams, yn bles iawn gyda'r perfformiad. Gorffenodd y tîm yn ail yn y gynghrair wedi iddynt golli y gêm olaf o 1-0 yn erbyn Cae

Glyn. Methu'r dwbwl o drwch blewyn felly.

Aeth y chwaraewyr o Fl. 7 yn y tîm draw i Borthmadog yn ddiweddar ac ennill twrnament yno. Hefyd roedd rhai o'r tîm yn rhan o dîm Ysgol Brynrefail a gipiodd Gwpan Cymru.